

ECO'R WYDDFA

Rhif 72

Gorffennaf-Awst 1982

Pris 20c

CAU CAPELI LLANBERIS



Dau lun sy'n dangos diwedd cyfnod yn hanes yr achos ym mhentref Llanberis. Uchod, y gynulleidfa yn y gwasanaeth olaf yng nghapel Preswylfa Mehefin 20. (Trowch i dudalennau 4 a 5 am hanes ac atgofion). Isod, y ffyddloniaid yng ngwasanaeth olaf Gorffwysfa Mehefin 27.

Penderfynwyd cau'r ddau gapel, uno'r aelodaeth a dechrau achos newydd yng Nghapel Coch yn bennaf oherwydd y costau uchel a'r lleihad yn nifer y rhai sy'n mynychu. Mae Capel Coch mewn gwell cyflwr na'r capeli eraill.

Cynhelir y gwasanaeth i sefydlu'r achos newydd yng Nghapel Coch nos lau y cyntaf o Orffennaf.

REIDWYR ADDAWOL



Brawd a chwaer yw Dafydd ac Olwen Jones o Lanrug sy'n brysur ddangos ei medr yn myd marchogaeth. Olwen oedd y reidwraig orau yn ei dosbarth — oedd yn cynnwys rhai o oreuon Gogledd Cymru ym Mhorthmadog yn ddiweddar. Daeth Dafydd yn ail yn ei ddosbarth yntau.

I GYHOEDDI'R CARNIFALAU



Gorymdaith Carnifal Llanrug — y cyntaf o garnifalau'r fro. Gweler lluniau ar dudalen 9 hefyd.

LLWYDDIANT YM MHWLLHELI

Ein llongyfarchiadau i bawb o'r fro fu'n arddangos eu gwaith ac a fu'n cystadlu ar lwyfan ac yn ysgrifenedig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwllheli eleni. Dyma luniau rhai ddaeth â chlod i'r fro:



Elfed Roberts, Llanrug, Swyddog Datblygu'r Urdd Rhanbarth Arfon gyda thlws Coffa R.E. Griffith i'r Rhanbarth gyda'r mwyaf o farciau.



Annette Bryn Roberts, Dinorwig, enillydd Medal Grace Williams — am y marciau uchaf yng nghystadlaethau'r Adran Gerddoriaeth.



Ail yng nghystadleuaeth grŵp gwerin — Gwlith. Daeth Rhian Owen, a Sian Gibson, dwy o aelodau'r grŵp yn ail ar y ddeuawd o 15 i 18 oed. Enillodd Rhian yr unawd i ferched.



Gethin Parry o Lanrug, trydydd am ysgrifennu barddoniaeth dan 8 oed.



Enillydd yr Unawd Offeryn Pres dan 15 oed — Gwyn Meirion Roberts o Lanrug. (Llun drwy garedigrwydd Papurau'r Herald)

ECO'R WYDDFA

RHIF 72
GORFFENNAF -
AWST 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 870550)

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MEDI 2

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

AWST 24

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

I GOFFAU LLYWELYN

2 Sgwâr Betris,
Talysarn,
Arfon.

Annwyl Olygydd,

Afydddech mor garedig â chynnwys
y wybodaeth isod yn y rhifyn nesaf
o'ch papur?

Cynhelir Rali Genedlaethol Plaid
Cymru i goffâu Llywelyn ap Gruffydd
ddydd Sadwrn, Gorffennaf 10, 1982
yng Nghastell Dolbadarn, Llanberis,
Gwynedd. Wladgarwyr dewch yn llw.

Gofynnir i bawb ymgynnull am
2.00 p.m. y tu allan i Oriel Eryri ar
ffordd osgoi Llanberis. Bydd
gorymdaith oddi yno trwy'r pentref i
Gastell Dolbadarn. Felly, dewch â
baneri. Yn y castell anerchir y Rali
gan Dafydd Wigley, A.S., y Dr
Gwynfor Evans, Gordon Wilson,
A.S., S.N.P. a Dafydd Elis Thomas,
A.S.

Trwy'r prynhawn bydd
arddangosfa a stondin llenyddiaeth a
drefnir gan 'Cofiw'n' yng Nghanolfan
Gymdeithasol Llanberis.

Gyda'r nos am 8.00 p.m. bydd
noson werin yng Nghanolfan
Tanybont, Caernarfon gyda'r
artistiaid Dafydd Iwan a Gwlith
(enillwyr y gystadleuaeth canu
gwerin yn yr Wyl Ban Geltaidd eleni).
Bydd hefyd bar a bwyd. Y mae
tocynnau, £1.50 yr un, ar gael o
swyddfa Plaid Cymru, Caernarfon,
neu drwy'r post gan Chris Schoen, 2
Sgwâr Betris, Talysarn, Arfon,
Gwynedd.

Yr eiddoch yn wlatgar,

Chris Schoen

Cysylltydd Panel Coffa Llywelyn II
Pwyllgor Rhanbarth Arfon.

UNDEB Y GYMRAEG

Annwyl Olygydd

Buaswn yn falch pe byddech yn
caniatáu ychydig o ofod yn eich
cyhoeddiad nesaf imi sôn am Undeb y
Gymraeg. Amcan yr Undeb hwn yw
hybu defnyddio'r Gymraeg ym myd
masnach, diwydiant, diwylliant ac yn y
blaen yng Nghymru.

Bu cynnydd syweddol yn y defnydd a
wneir o'r Gymraeg gan gynghorau,
cyrff cyhoeddus a busnes preifat yn
ystod y ddegawd ddiwethaf a dymuniad
yr Undeb yw sicrhau cyhoeddusrwydd
effeithiol i'r cynnydd hwn. Er
enghraifft, bwriedir trefnu arddangosfa
deithiol a fydd yn ymweld â
chanolfannau megis yr Eisteddfod
Genedlaethol (Awst 1983)

Hoffwn eich gwahodd chi a'ch
darllenwyr i gyfrannu i'r arddangosfa.
Rydym yn chwilio am enghreifftiau
Cymraeg - dwyieithog megis
arwyddion, ffotograffau, taflenni a'r
tebyg.

A gaf apelio am ymateb i'r
gwahoddiad hwn? Wedi'r cwbl, ein
dyletswydd ni ddarllenwyr papurau a
chylchgronau Cymraeg yw arddangos
i'r byd pa faint o ddefnydd o'r Gymraeg
sydd yn ein bywyd beunyddiol onide.

Anfonwch eich cyfraniadau un ai ataf
i yn y cyfeiriad isod neu at ysgrifennydd
yr Undeb sef Eifion W. Williams,
Maesincla Isaf, Caernarfon,
Gwynedd.

Yn ddiolchgar ac yn obeithiol iawn,

Ifor G. Efans

7 Lôn y Wennol

Llanfairpwll

Môn

GWAHODDIAD I GARNIFAL LLANBERIS

Annwyl Olygydd,

Carem estyn
gwahoddiad i Ddawnsyr Morus a
Majorette i'r Carnifal ddydd Sadwrn,
Gorffennaf 17.

Bydd y dawnswyr yn cael ein
beirniadu ar yr orymdaith ac yna fe
fydd yr enillwyr ynghyd â dawnswyr
Llanberis yn dawnsio yn y cylch ar y
maes.

Mae'r gwahoddiad yma i
ddawnsyr o gylch yr Eco a thref
Caernarfon.

Os ydych am ddod cysylltwch â mi
cyn gynted ag yn bosibl: Alwyn
Thomas (Ysgrifennydd), Tŷ'r Ysgol,
Ffordd Capel Coch, Llanberis. Ffôn
Llanberis 870220.

Os oes
rhywun eisiau cyfrannu (tuniau bwyd
etc - rhywbeth i wneud basgedi
bwyd a gwobrwyr tuag at y
gwahanol rafflau) a fuasech yn mynd
â'ch anrhegion i: Mrs Dilys Phillips,
Siop Wlân, 38 Stryd Fawr, Llanberis
neu Mr Ken Jones, 19 Maes Padarn,
Llanberis cyn dydd Sadwrn
Gorffennaf 10 fel y gallwn wedyn
benderfynu beth sydd angen ei brynu
mewn gwobrau.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth
hael bob amser.

Yn gywir,
Alwyn Thomas
(gweler cyfeiriad uchod)

MERCHED Y WAWR - YN YR EISTEDDFOD

Bydd ein cyfarfod yn yr Eisteddfod
Genedlaethol yn Abertawe fore
Mercher, Awst 4 yn gorfod dechrau
chwarter awr ynghynt nag arfer, sef am
9.45 (chwarter i ddeg) yn lle am ddeg
o'r gloch. Eleni bydd Megan Creunant
Davies yn trosglwyddo'r llywyddiaeth i
Rebecca Powell a bydd Rhanbarth
Gorllewin Morgannwg yn cyflwyno
rhaglen ar hanes bro'r Eisteddfod a'n
gobaith am y dyfodol. Mae pabell
gennym ar y maes lle mae croeso i bawb
— yn aelodau ac yn gyfeillion — i droi i
mewn am gropanaid o de a chwrdd â'i
gilydd, y cyfan yng ngofal Rhanbarth
Gorllewin Morgannwg.

(Mair Elvet Thomas, Trefnydd
Cenedlaethol)

Y DDAU FILWR

Ynglyn â'r llun o ddau filwr a
oedd yn Eco'r mis diwethaf.

Tynnwyd y llun rywdro tua
diwedd 1940. Y fi (Goronwy O.
Williams) yw un ohonynt, a John
Moi (Hebron) yw'r llall. Ni
chlywais oddi wrtho na'i weld ers
hynny, ond deallaf iddo farw yn
ymyl Goodwood Park,
Chichester, Sussex, rai
blynnyddoedd yn ôl.

Roedd y ddau ohonom yn yr
RAMC ar y pryd, ac efo'r "No. 5
General Hospital" yn Goodwood
House, plasyd mawr yn eiddo i'r
Duke of Richmond. Roedd
aelodau'r lluoedd arfog a ddaeth
allan o Dunkirk yn aros yma, ac
eraill yn cael eu paratoi'n barod i
fynd allan i Affrica.

Yr eiddoch yn gywir,
Goronwy O. Williams,
6 Felin Garreg,
Llanllyfni.

HELP LLAW OS GWELWCH YN DDA

Annwyl Olygydd,

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol
Arfon yn trefnu awr ar gyfer yr Anabl
o dan eu gofal yng Nghanolfan
Hamdden Caernarfon, ar fore
Gwener o 11.00 y bore hyd 12.00 o'r
gloch. Ar hyn o bryd, cyfyngir yr awr
i'r pŵll nofio oherwydd nad oes
digon o wirfoddolwyr i'n helpu.

Os oes rhywun yn barod i roi help
llaw un ai drwy redeg car neu ddod i'r
Ganolfan i helpu yn y pŵll, a fyddwch
cystal â chysylltu â Mr Oswyn Rees,
Swyddog Rhanbarth Arfon, Yr
Anecs, Plas y Coed, Porth Penrhyn,
Bangor, neu ffonio Bangor 51931 am
fwy o fanylion. Telir costau teithio.

Yn gywir,
(Mrs) Eryl Roberts,
Tyddyn Alys,
Cwm-y-glo.

TREFNYDD GWERTHANT

O Fedi ymlaen, Mr Arwyn Roberts,
Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (Ffôn
Caernarfon 5501) fydd Trefnydd
Gwerthiant yr Eco. Hoffwn ddiolch
iddo am ymgymryd â'r gwaith hwn.

Yn ogystal, hoffwn fanteisio ar y
cyfle hwn i ddiolch i bawb o
weithwyr yr Eco am eu cefnogaeth
a'u help yn ystod yr amser y bûm i yn
Drefnydd Gwerthiant. Dymunaf bob
llwyddiant i'r papur yn y dyfodol.

Ian Pierce
Trefnydd Gwerthiant

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

BETHEL

CYDYMDEIMLO – Ar Fehefin 3, bu farw Mr Idris Wyn Williams, Y Gilfach, Seion wedi iddo gael ei daro'n wael tra'n siopio yng Nghaernarfon. Estynnwn bob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR – Ar Fehefin 9 aeth cangen Merched y Wawr ar daith ddirgel. Aethant i weld crochenwaith yn cael ei wneud ym Mhorthmadog ac yna ymlaen i Blas Gwyn Pentrefelin am bryd blasus ac yna teithio adref drwy Fryncir a Phenygroes.

Bydd y gangen yn aildddechrau ar dymor y gaeaf ar yr ail nos Fercher ym Medi.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos lau, Ebrill 22 yn yr ysgol cynhaliwyd y cyfarfod gyda Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd yn llywyddu. Cafwyd sgwrs ardderchog iawn ar 'Hen Bethau' (antiques) gan Mr W. Griffiths, Ivy Cottage. Diolchwyd iddo gan Mrs Audrey Pierce, Cae'r Sidi, enillwyd y raffl gan Mrs Grace Williams, 5 Bro Rhos.

Nos lau Mai 20 yn yr ysgol gyda'r llywydd Mrs Gwyneth Williams yn y gadair estynnwyd croeso cynnes i Mrs Vera Hughes o Fethesda y VCO a chafwyd trafodaeth ar yr argymhellion a drafodir yn y Cyfarfod Blyneddol yn Neuadd Albert Llundain. Diolchwyd iddi gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Darparwyd y te gan Mrs Mary Williams a Mrs Lily Barlow. Diolchwyd iddynt gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Enillwyd y raffl gan Mrs Olwen Evans, Parciau Rhos.

DAUNSWYR MORRIS – Nos lau, Mehefin 10 aeth genethod Dosbarth 3, Ysgol Bethel ar daith Beics Noddedig i godi arian at eu cronfa. Mae'n diolch hefyd i'r bechgyn aeth gyda hwy i wneud yn siŵr eu bod yn dod adref yn saff! sef Aled Jones, Elwyn Parry, Dafydd Llywelyn Jones ac Andrew Jones.

Diolch hogia!
Y noson wedyn, aeth gweddill y genethod ar daith gerdded noddedig a rhai o'r mamau gyda nhw.

Hoffem ddiolch i bawb wnaeth noddi'r genethod.

Ddydd Sadwrn Mehefin 12 roedd y

Ddau Drŵp yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Gwynedd yng Nghaernarfon ac fe fuont yn llwyddiannus iawn.

Enillodd y Trŵp Gwyrd darian am yr orymdaith a chafodd y Trŵp Coch darian am ddod yn ail mewn arddangosfa ar y cae.

Llongyfarchiadau iddynt.

Ddydd Sadwrn Mehefin 19 roedd y genethod yng Ngharnifal Rhosgadfan – a'r nesaf fydd canifal Bethel, Gorffennaf 3.

LLONGYFARCHIADAU – Ar Fehefin 19 yn Eglwys Sant Gwyndaf Llanwnda priodwyd Gerallt Jones, Awel y Grug â Siân Lewis, 43 Llwyn Beuno, Bontnewydd, ac fel hyn yr anfonodd Mrs M. Lloyd Williams (Mari Lewis) ei llongyfarchiadau iddynt:

'Home Sweet Home' a ganant bellach,
Cânt fywyd hapus ar ei hyd
Aiff eu canu yn felysach
Wrth gyd-deithio yn y byd;
Diwrnod llawen ydyw heddiw
Diwrnod dechreuodd dau gyd-fyw:
Cartref gweddi fo eu haelwyd
Llanwer hi â bendithion Duw.

LLONGYFARCHIADAU i Sian a William Robinson, Cartref ar enedigaeth merch, Elen.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Ellen a Gwynfor Ellis, Stad Eryri ar enedigaeth merch ar Fehefin 11.



Dyma lun o Mr Dafydd Ellis, Manora, Stryd Bangor, Y Felinheli (mab yng nghyfraith Mr a Mrs Hugh Jones, Rhianfa, Bethel) a enillodd darian am chwarae pêl-droed yn Ferodo.

Deëllir mai yn ystod amser cinio y caiff y gemau yma eu chwarae yn Ferodo – wedi blino gormod wedyn i weithio yn y prynhawn!

Y MOCHYN BACH

Mochyn bach yn gadw mi gei
Eric yn rhoi'n ei fol yn slei,
Mochyn bach 'di torri ei goes,
A'n siŵr o fod mewn tipyn o loes.

Mochyn bach yn siglo fel cryd,
Annie'n ei gadw o hyd ac o hyd,
Eric yn chwilio am un newydd sbon
Neu i'r mochyn orfod gwisgo ffon.

Gwell yw rhoddi pres yn ei fol
Na Eric yn llenwi ei fol efo "Skol",

A Rhosbodruall yn dod o'i go',
A mynd â fo i'r dre dan glo!

Mae'r mochyn yn gallach efo tair coes,
Na Eric efo dwy – a rheini yn groes,
Gwell cael swigan mochyn am y tro
Na swigan plisman i'w chwythu'n slo!

Gobeithio caiff fochyn a thwll yn ei gefn,
I roddi ei arian a'i gadw mewn trefn.
O cofia, 'rhen Eric, am Annie fach ddel,
Sy'n cadw dy ddillad yn lân ac yn swel.

NANT PERIS



MARW – Yn ei gartref, Y Rheithordy, Corwen yn frawychus o sydyn bu farw'r Canon Ifor Phillips. Yr oedd yn enedigol o'r Nant, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs John Phillips, Fron Goch. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

CYFARCHION – Llongyfarchiadau i Mr I. Morgan, Gwastadnant ar ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed.

COFION – Anfonwn ein cofion at Mrs Searell Jones, Elidir sydd wedi mynd am gyfnod i gartref mamaeth yn Sir Fôn. Hefyd i Mrs Thomas, 9 Glanrafon sydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

DATHLU – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs J.W. Elis (Perisfab), 8 Glanrafon ar ddathlu eu priodas ruddem Mehefin 20. Dyma gyfarchiad Mr R.E. Jones, Llanrwst iddynt ar yr amgylchiad.

Priodas Ruddem Mr a Mrs J.W. Elis (Perisfab)
Nant Peris
(Mehefin 20, 1982)

I Engedi Caernarfon
Ryw fore ar gynnar awr
Daeth bachgen o Nant Peris
A merch o Glynog Fawr.

Ac yno wrth yr allor
Di-gryn y rhoesant lw
Mai un o hynny allan
A fyddai'i bywyd nhw.

Yr oedd y byd o'u cwmpas
Dan gysgod rhyfel blin
Ond herio'i boen a'i brudd-der
Wnaeth cariad John a Jean.

Bu llawer hap er hynny
A llawer tro ar fyd
Ond ceidw'r uniad hwnnw
Ei rym a'i rin o hyd.

Aeth deugain o flynyddoedd
Cythryblus heibio'n glau;
Ni laciodd yr ymlyniad,
Yn hytrach bu'n tynhau.

Dedwyddwch drwy bob troeon
Fu ar yr aelwyd fach –
Aelwyd y pethau gorau,
Aelwyd Cymreictod iach.

Aelwyd a fagodd ddeufab
Sydd i'w rhieni'n glod,
Pa amgen destun balchder
I ddeuddyn allai ddod?

Heddiw, a hwythau'n dathlu
Deugeinmlwydd o gyd-fyw,
Boed lawen iawn eu calon,
Boed iddynt fendith Duw.

R.E. Jones

YR HEN YSGOL – Mae'n dda gweld gweithgarwch a bywyd o gwmpas yr ysgol eto gyda chwmni 'Wintergear' wedi dechrau gweithio yn cynhyrchu pebyll a dillad ar gyfer mynydda.

Perchnogion Wintergear ydi Ben a Marian Wintringham sydd yn cynhyrchu'r offer ac eisoes gwerthwyd eu cynnyrch yn helaeth. Mae dringwyr enwog fel Joe Brown a Mo Anthoine yn defnyddio cynnyrch y cwmni a bu'r rhai a fu'n dringo Crib orllewinol Everest ar ymgyrch 1980-81 yn defnyddio offer Wintergear.

Mae Ben a Marian eu hunain yn ddringwyr profiadol wedi dringo ym mynyddoedd yr Himalaya, yr Alpau, UDA, Kenya a Norwy. Ers cartrefu yn y Felinheli maent wedi dringo llawer yma yn y gogledd hefyd.

Byddai rheolwr y gwaith yn y Nant, Annette Shaw yn falch o weld unrhyw ymwelwyr yn yr ysgol.

CARNIFAL – Bydd y carnifal eleni yn cael ei gynnal nos Wener, Gorffennaf 23.

BETWS GARMON

MARW – Yn frawychus o sydyn ddydd Llun, Mehefin 21, bu farw Mr Owen William Owen yn 54 mlwydd oed. Gweinidog dros Ogledd Cymru gyda Chymorth Cristionogol ydoedd ac yn byw yn Abergele, ond fe'i ganwyd ac fe'i magwyd yn Ystrad Isaf. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs O.P. Owen. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd.

PEN-BLWYDD – Dymuniadau gorau i Iolo Jones, Bryn Tegid ar ei ben-blwydd yn 18 oed, Gorffennaf 15. Pob bendith i'r dyfodol.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMBOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Llanberis 872236



Mae SULYN ar y ffordd!!



- *y papur Sul i bobl Gwynedd*
- *yr unig bapur Sul Cymraeg:*
- * Y newyddion i gyd — o'r stryd nesa' i weddill y byd.
- * Chwaraeon — gemau dydd Sadwrn, a'r hanes dydd Sul. Eich clwb chi a'r clybiau mawr.
- * Lluniau — Y gôl bwysig, y digwyddiad mawr a'r bobl ddifyr.
- * Cystadleuthau rif y gw lith. Cyfle i ennill punnoedd — a mwy!
- * I werthu neu brynu, SULYN fydd jest y boi. Tai, ceir, bargeinion.
- * Y ffeithiau am y sêr. Hanesion o fyd y bocs, y ffilm a'r llwyfan. A'r cyfan yn ffresh.

Cofiwch wylïo a gwrando am SULYN.

DOD Â LLIW I'R SUL A'R BYD I GARREG Y DRWS

EGLWYS PRESWYLFA, M.C. 1882-1982

"Yr ydym yma dros Henaduriaeth Arfon i gau'r adeilad hwn ac i ddirwyn i ben yr achos a sefydlwyd ..."

Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1882, a dyma sylw Mr Job Owen ar yr hyn a arweiniodd i sefydlu'r achos, "Preswylid y rhan o Lanberis y saif Preswylfa ynddo, cyn cychwyn yr achos yma, gan y dosbarth tlotaf o'r bobl. Yr oedd yma nifer luosog o rieni a phlant nad elent i un lle o addoliad."

Teimlid ar y pryd y dylid rhoi arbrawf trwy ardrethu tŷ i gychwyn ysgol ynddo ar y Sul. Yn fuan iawn fe aeth y tŷ yn rhy fychan i'r gynulleidfa ac fel hyn mae'r hanes ar ôl hynny; "penderfynwyd codi addoldy yma". "Wedi dyfal feddwl penderfynwyd ar yr antur, ac yn y flwyddyn 1882 agorwyd capel prydferth o gynlluniad y Parch G.T. Parry, gwerth, gan gynnwys pris y tir rhydd-ddaliadol, £1,400. Mae iddo festri helaeth odditanodd." Prynwyd y tir yn 1878 am £150.

Dyma gofnod o Gyfarfod Misol Mawrth 12, 1883, a gynhaliwyd yn Gorffwysfa; "Anfynych y buwyd yn gwrando hanes mwy cysurus am yr achos yn unman nag yn Gorffwysfa ... Y mae yno gapel newydd wedi ei adeiladu gerllaw o'r enw Preswylfa ... Y mae yno eglwys wedi ei sylfaenu yn rhifo 82." (rhywbeth yn debyg ymhen can mlynedd)

Fe ddaeth y syniad am adeiladu capel yma tua 1878. Yr oedd llwyddiant mawr yn y chwarel yr adeg yma ac yn denu llawer o bobl i'r ardal i fyw. Teuluoedd yn mynd i Gorffwysfa yr adeg hynny a chael fod y lle yn llawn. Felly, adeiladwyd capel Preswylfa, "a dyma'r cynllun". Y capel newydd i fod yn llathen yn llai o led a hyd na chapel Gorffwysfa. Nid oedd oriel i fod yn y capel newydd. 63 o seddau i eistedd 340 yn gyffyrddus. Gorffennwyd y gwaith ar Fedi 5, 1882.

Nid ystyrid Preswylfa yn eglwys ar wahân hyd 1888, er bod ystadegau ar wahân yn 1883, ac yn y flwyddyn hon y derbyniwyd blaenoriaid am y tro cyntaf. Yn Awst, 1887 derbyniwyd dau i'r Cyfarfod Misol fel pregethwyr, sef James Jones, a William Williams. Yn Awst, 1891 fe alwyd William Williams i fugeilio eglwys Brymbo, a James Jones yn cael ei adnabod fel y Parch. James Jones 'Croesywaen'. Da yw cael tystio i bregethwr arall gael ei godi o gynulleidfa Preswylfa, a dechrau ar ei waith fel gweinidog yn 1945, ac ar hyn o bryd yn weinidog yn Llanidloes, sef y Parch. Michael L. Thomas.

'Roedd yr eglwys wedi cynyddu mor gyflym fel y daethpwyd i deimlo fod yr eglwys yn ormod o waith i un gweinidog, sef y Parch. Tecwyn Parry, ac mai doeth fuasai cael gweinidog ar wahân, ac yng Nghyfarfod Misol 1887 cadarnhawyd yr ymwahanu. Yn y flwyddyn 1888 galwyd y Parch. R.W. Hughes yma i fugeilio, a bu yma am naw mlynedd hyd 1897, pryd yr ymadawodd i fugeilio eglwys Rhyd-ddu. Yn 1898 galwyd y Parch. R.O. Hughes yma yn weinidog a bu yn gweinidogaethu hyd y flwyddyn 1923, ac 'roedd capel Clegir dan ei ofal, ac yn rhan o'r daith Sabothol. Bu cyfnod o 25 mlynedd heb weinidog. Wedi ymddeoliad y Parch. John Pritchard o fod yn weinidog yng Ngorffwysfa am 37 o flynyddoedd, penderfynwyd uno Gorffwysfa a Phreswylfa yn un ofalaeth. Yn y flwyddyn 1948 galwyd ar y Parch. J.L. Mathias yma yn weinidog. Ymadawodd yntau yn y flwyddyn 1959 i'w hen gynefin yn y de, ac yn yr un flwyddyn galwyd y Parch. Meirion Lloyd Davies yma i'w ofalaeth gyntaf. Symudodd Mr. Davies i Bwllheli yn 1964 ac yn yr un flwyddyn galwyd y Parch. John Owen yma yn weinidog. Pan ymddeolodd y Parch. J. Alwyn Parry, daeth Capel Coch, a Rehoboth yn waith ychwanegol i Mr. Owen. Symud fu ei hanes yntau i Ruthun yn 1977, ac yn 1978 galwyd y Parch. Marcus W. Robinson i fugeilio'r bedair eglwys.

Daeth syniadau newydd gyda'r gweinidogion ieuainc ac yn 1969 ceisiwyd cau capel Preswylfa a'r aelodau i ymuno â chynulleidfa Gorffwysfa ond dymuniad aelodau Preswylfa oedd aros ar wahân.

Yn y flwyddyn 1977 bu ymdrech arall i gau Capel Gorffwysfa a Phreswylfa. Eto dangoswyd amharodrwydd i uno yn y Capel Coch. Oherwydd yr amheuaeth yma ar hyd y blynyddoedd ynglŷn â dyfodol y capeli mae dirywiad amlwg wedi digwydd mewn presenoldeb a chyfrannu. Mae'r gofynion ariannol yn cynyddu'n feunyddiol a ffactorau



Uchod: Llun o'r gwasanaeth olaf, gyda'r Parch Michael L. Thomas, un o blant yr eglwys, yn annerch.


Isod: Yr Ysgol Sul olaf ym Mhreswylfa.

eraill hefyd yn arwain at roi'r mater i'r aelodau bleidleisio arno, a phenderfynu cau Gorffwysfa a Phreswylfa a chafwyd y mwyafrif yn pleidleisio o blaid cau y ddau gapel ac uno yn y Capel Coch. Dymuniad aelodau Preswylfa oedd cael aros hyd y canmlwyddiant a dyma hi ar yr 20 o Mehefin yn dirwyn yr achos i ben yn Preswylfa ac ar y Sul Mehefin 27 bydd yr achos yn Gorffwysfa hefyd yn dirwyn i ben.

Gyda themladau cymysg iawn mae'r aelodau yn barod i gau'r capeli eu "cartref ysbrydol" wedi blynyddoedd lawer o ddal cysylltiadau â'r achos a chofio'r rhai fu'n llafurio i adeiladu a chadw'r adeiladau yn agored a'r profiadau

bendithiol a melys iawn sydd yn aros. Y teimlad cyffredinol yw fod llawer mwy o ymdrech yn cael ei wneud i gau'r capeli nag sydd i'w cadw ar agor. Dyna oedd calon pob diwylliant a'r modd gorau mae'n siŵr i gadw'r Iaith Gymraeg yn fyw yn yr ardaloedd gwledig. Trist meddwl fod yma saith lle i addoli wedi cau yn Llanberis er 1937: y Clegir (er mai ym Mhlwy Llanrug y mae hwn); Hebron; Seion; Bethel; Gorffwysfa a Phreswylfa. Seion yn Warws a Bethel wedi cael ei gymryd drosodd gan y Pabyddion. Tybed beth ddaw o Breswylfa a Gorffwysfa os yw drws y capeli yn cau. Anodd iawn fydd cau'r drws ar yr atgofion fydd yn aros.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

*Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

BBC



**RADIO
CYMRU**

Yn wyneb poblogrwydd cynyddol y rhaglenni hyn, gwahoddir cwmnïau o feirdd gwlad i ymffurfio'n dimau o 6 ar gyfer y gyfres newydd (1982-83) sydd i ddechrau fis Hydref. Ceir rhagor o fanylion o'r cyfeiriad hwn:

Talwrn y Beirdd, BBC, Bangor.

ATGOFION AM PRESWYLFA

"A mi a eisteddais lle yr oeddynt hwythau yn eistedd"

Fel y gŵyr pawb ohonoch rwy'n siŵr, adnod o Lyfr Eseciel ydi honna, a phan glywais i y byddai gwasanaeth arbennig ar y trydydd Sul o Fehefin i ddirwyn yr Achos i ben ym Mhreswylfa, ac y cynhelid gwasanaeth arbennig ar y cyntaf o Orffennaf yn adeilad yr hen Gapel Coch i sefydlu Eglwys Bresbyteraidd newydd yn Llanberis; honna oedd yr adnod ddaeth i'm meddwl i.

Ym Mhreswylfa y'm magwyd i ac roedd y capel bob amser yn bwysig iawn i ni fel teulu. Bu Nain yn ei lanhau am ymron i ddeugain mlynedd. Yno y cefais i a'm chwiorydd ein bedyddio, yno y cawsom ein derbyn yn gyflawn aelodau, yno y cawsom ein Cymun cyntaf, yno y'm priodwyd ac yno y bûm mewn seiat goffa ar ôl fy mam a 'nhad.

Roedd ein sêr ni yn y cefn o dan y cloc, ac felly gallem weld y gunulleidfa i gyd. Cofiaf y capel yn gyffyrddus lawn bron bob nos Sul. Cofiaf hefyd yn ystod y rhyfel y seddau gweigion gyda'r bechgyn a'r merched ifanc yn y lluoedd arfog, a llu mawr o'r aelodau yn gweithio ar y Sul yn Necaco a Chwarel y Glyn. Rwy'n siŵr y cytunai pawb sy'n cofio'r cyfnod diflas hwnnw mai i Mr Robert Morris, yn anad neb, roedd y diolch am gadw'r drysau ar agor.

Wrth gwrs fe deimlais i, fel amryw eraill, mae'n siŵr beth chwithdod wrth glywed am yr ad-drefnu; ond teimlais rhyw falchder hefyd fod yna bobl digon aeddfed eu crebwyll a'u dealltwriaeth i weld mai dyma oedd y peth doeth i'w wneud yn yr oes sydd ohoni. Dyledwyr ydym i gyd i rywrai. Mae rhai dyledion yn rhai rhwydd i'w talu'n ôl a'u setlo. Nid felly pob dyled. Mae fy nyled i'n fawr i'r rhai fu'n cynnal yr achos ym Mhreswylfa pan oeddwn i'n blentyn; i'r rhai fu'n llafurio gyda ni yn yr Ysgol Sul a'r Band of hope. Roedd yna bob amser rhyw bobl ymroddgar yn troi i mewn ar brynawn Sul ac ar nos Lun i gadw trefn arnom, i'n dysgu a'n diddori; a ninnau'n aml yn ddigon direidus ac weithiau'n ddrwg a digywilydd. Ychydig iawn o dorchau blodau roddir i athrawon Ysgol Sul.

Miss Rhiwen Jones a gofiaf yn athrawes arnaf i gyntaf yn y festri fach pan o'n i'n dair a phedair oed, ac athrawes annwyl dros ben oedd hi hefyd. Cofiaf y lluniau mawr ar y wal - "Yr Iesu'n bendithio'r plant", "Yr Iesu'n porthi'r pum mil", "Yr Iesu'n tawelu'r storm" Dwi'n meddwl fy mod i'n credu bryd hynny bod Iesu Grist yn byw efo Miss Rhiwen Jones yn y festri fach.

Cefais amryw o athrawon ar ôl

hynny. Rhai dwi'n siŵr yn well athrawon na'i gilydd, ond i gyd yn ymroddgar ac amyneddgar, a phob un ohonynt wedi aberthu eu pnawn Sul i ddod i'r Ysgol Sul atom ni. Dydi gofod ddim yn caniatáu i mi eu henwi, ond dyledwyr ydw i iddynt i gyd. Mae pob un ohonynt, yn ei ffordd ei hun, wedi cael rhyw law yn fy ngwneud i yr hyn ydwyf heddiw. Trueni na fuaswn yn fwy teilwng o'u hymdrech a'u llafur.

Yn yr un modd y bobl dda hynny ddeuai atom i'r Band of Hope a'r Gymdeithas. Amryw ohonynt yn chwarelwyr, ar ôl diwrnod o waith caled, wedi rhuthro trwy eu swper chwarel i 'molchi a newid i ddod atom ni i'r festri erbyn chwech. Fe fyddai'r festri'n llawn bob nos Lun, a bron na ddwedwn na byddai ciw yn disgwyl i fynd i mewn i'r Gymdeithas. Roeddynt y Band of Hope a'r Gymdeithas orau yn y pentref ar y pryd.

Mae gan bawb ohonom ein hatgofion am ddigwyddiadau a phersonau arbennig ac fe fyddwn wrth fy modd yn sôn am fy rhai i, ond dwi ddim am enwi ond un, sef Mrs Richards, Beech Bank. Bu'n Arolygwr yr Ysgol Sul am flynyddoedd, ond yr hyn dwi'n gofio fwyaf amdani ydyw, y ffordd yr enynnodd ddiddordeb yn y Genhadaeth Dramor ynom. Trefnai i gael cenhadwr neu genhades i ddod i annerch y Chwiorydd yn y pnawn, ac yna deuem ni'r plant yn syth o'r ysgol i gael te blasus yn y festri, a gwnâi Mrs Richards yn siŵr fod gan y Cennad sgwrs arbennig wedi ei pharatoi i ni'r plant a digon o gyfarpar (dillad, addurniadau, offerynnau cerdd, llestri ac ati yn perthyn i'r brodorion) i'w dangos i ni. Caem eu gweld a'u cyffwrdd. Deuai'r cwbl yn fyw iawn i ni.

Sut mae talu'n ôl ein dyled i'r bobl dda hyn am y cwbl a gawsom ganddynt? Wel un ffordd yn sicr yw wrth sôn amdanynt wrth ein plant a phlant ein plant. Fe fuaswn wedi bod wrth fy modd bod yn y gwasanaeth ym Mhreswylfa yn dathlu'r canmlwyddiant ar y trydydd Sul, a hefyd yn yr Oedfa arbennig ar Orffennaf y cyntaf, ond nid oedd hynny'n bosibl. Pob bendith ar yr

Eglwys newydd - ei Gweinidog, swyddogion ac aelodau.

Mair Roberts

DATHLU CANMLWYDDIANT PRESWYLFA

Bnawn Sul, Mehefin 20 daeth llu o gyfeillion o bell ac agos i Eglwys Preswylfa i ddathlu canmlwyddiant yr Eglwys (1882-1982). Cyfarfod i'w gofio ydoedd hwn i bawb a fu'n bresennol - yn enwedig i'r plant a gymerodd y rhan flaenllaw o'r rhaglen yn darllen a chanu. Mawr yw'r diolch i'r swyddogion am y trefnu taclus, i Mr Idwal Roberts a Mr John Ellis am hyfforddi'r plant. Roedd yr hen gapel bach yn edrych ar ei orau - diwrnod pen-blwydd o ddifri - y blodau tlws yn addurno pob ffenestr, a rhyw sglein ar bopeth.

Rhoddodd Hugh R. Jones, un o'r blaenoriaid fraslun difyr iawn o hanes yr eglwys ar hyd y blynyddoedd, gan gyfeirio at y gweithgarwch a'r ffyddlondeb i waith yr eglwys o bob cyfeiriad. Roedd yn falch meddai ei fod wedi gallu rhoi yr hyn a allai i gario'r achos ymlaen hyd y diwedd. Er mai diwrnod dathlu ydoedd, diwrnod pen-blwydd i groesawu'r plant adref, ond roedd yn ddiwrnod cau'r drws ar yr hen gapel bach. Deuai hyn â digalondid mawr i'r aelodau ond roedd ganddynt y cofion am y cysylltiadau a'r gweithgarwch a'r ffyddlondeb a fu yn eu mysg fel un teulu clôs ar hyd y blynyddoedd.

Siaradwyd ymhellach gan Mr Cledwyn Parry, yntau yn un o'r blaenoriaid a chyfeiriodd at y blynyddoedd hapus a'r cymeriadau dawnus a fu'n gweithio yno. Gorfennodd ei araith drwy ddarllen y penillion canlynol a gyfansoddwyd i'r achlysur gan T.H. Williams, Waunfawr. **Prynhawn Sul Mehefin yr Ugeinfed 1982**

Pnawn Sul mae'n siŵr i'w gofio
Fydd hwn i lawer un,
A wir ar yr amgylchiad
'Rwy'n teimlo'n drist fy hun,
Preswylfa wedi cyrraedd
Fel Eglwys ei Chant Oed -

Ond O! mae yr alargan
Fel clomen yn y coed.

Cant oed! ond ni fydd bellach
O fewn y muriau hyn -
Ond adlais o'r gorffennol
Yn treiddio bro a bryn,
Bydd rhwyrai'n dal i ofyn -
P'le'r aeth yr hen Amen?
A'r weddi gynt a gydiai
Y ddaear wrth y nen?

Fe droediodd cannoedd yma
Dros wyndra'r Llwybyr Cul -
I oedfa a chwrdd gweddi
Wrth gwrs, a'r Ysgol Sul -
Yng nghwrs y llu blynyddoedd
Daeth rhai defynnau i lawr,
Fe erys cof yn sicir -
Am gewri'r Cyrddau Mawr.

Mi welwn rwyg y Dathlu -
Siom a fydd yn yn siŵr,
Ond cofio am Breswylfa
A fu yn gadarn dŵr,
Na wylwn, ymwrolwn -
Awn rhagom yn gytûn -
Yng Nghapel Coch o'r newydd
Dan Fanner Mab y Dyn.

T.H. Williams

Mr John S. Thomas a gyfeiriodd at yr unoliaeth hapus a gafwyd yn yr Eglwys ar hyd y blynyddoedd. Pawb yn aelod o un teulu yn amcanu at gadw drws Tŷ Dduw yn agored a chario gwaith yr eglwys ymlaen yn ddi-ofn.

Un o blant yr eglwys, sef y Parch Michael Lewis Thomas a dalodd deyrnged i'r cewri yn y gorffennol a gadwdd blant yr eglwys i fod yn ffyddlon i'w Crist. Cyfeiriodd at y gweithgarwch a'r ffyddlondeb i'r gwasanaethau a diolchodd am bob cymorth a chynorthwy ac arweiniad a gafodd gan Eglwys Preswylfa. Er bod tristwch yng nghalon yr aelodau o golli eu capel - lle y magwyd eu plant - ond llawenhau ddylai pawb wneud wrth gofio am y blynyddoedd o weithgarwch a hapusrwydd a welsant ym Mhreswylfa. Cofio'r pen-blwydd - nid cofio'r drws yn cau.

Diolchodd y gweinidog y Parch Marcus Robinson i bawb am eu cyfarchion a'u hatgofion, a diolchodd i'r plant am eu cyfraniad gwerthfawr i'r diwrnod mawr yma.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)**

LLANBERIS

COLLI PRIF DDOSBARTHWR

Ar ôl gwasanaeth ffyddlon o dros bum mlynedd i'r Eco yn Llanberis fel Prif Ddosbarthwyr, mae Mr a Mrs Bert Jones, Garfield House, Stryd Fawr wedi mynegi'r awydd i roi'r gorau i'w swydd o fis Medi ymlaen. Hoffwn ddiolch yn fawr iddynt ar ran y papur a'r fro am eu llafur diflino.

Ym Medi, Mr Trefor Edwards, Eldon House a Mr Derek Williams, Glasfryn fydd y Prif Ddosbarthwyr newydd. Diolch iddynt am ymgymryd â'r gwaith.

CYNHADLEDD CND CYMRU - Aeth cynrychiolaeth o adran Dyffryn Peris CND i Lundain Mehefin 6 i gymryd rhan yn yr orymdaith drwy'r ddinas. Mae gweithgarwch brwdfrydig iawn ymysg aelodau'r gangen leol, ac maent yn bwriadu cynnal cyfarfodydd bob yn ail nos Fercher yn y Ganolfan i geisio creu diddordeb pentrefol yn y CND.

PERSONOL - Da iawn gan ei lu cyfeillion yw gweld bod Wilbert Davies, Teras y Graig wedi gwella ac yn ôl gyda'i orchwylion fel gofalwr Ysgol Dolbadarn.

Hefyd, pleser ydoedd gweld ei ferch, Helen, a'i mab bychan gartref gyda'i theulu am wyliau.

GWASANAETH COFFA - Yn Eglwys Capel Coch ar y Sul cyntaf o'r mis cynhaliwyd gwasanaeth i gofio am Raymond, mab Mr a Mrs Thomas John Roberts, Dôl Elidir a gollodd ei fywyd yn y rhyfel yn Y Falklands. Gwasanaethai fel 'chef' ar y llong ryfel Ardent.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y gweinidog, y Parch Marcus Robinson ac yn ei arai agoriadol cyfeiriodd at Raymond fel bachgen dymunol, poblogaidd a pharchus. Bu'n ffyddlon i'w gapel o'r adeg pan yn fachgen bach yn yr Ysgol Sul hyd ddydd ei briodas. Roedd ardal gyfan yn tristáu wrth gofio am yr amgylchiad brawychus hwn.

Siaradwyd ymhellach gan y Canon Alun Jones, y Parch Hugh John Hughes, a'r Parch Gwynfor Williams. Talwyd teyrnged i Raymond gan y blaenoriaid o'r eglwys sef Mrs Betty Rees Evans a Mr Ian Henry Jones. Cynrychiolwyd y Llynges gan un o'r Prif Swyddogion o Lerpwl, yntau'n tystio i gymeriad teyrngar Raymond.

Yn bresennol hefyd yr oedd yr Aelod Seneddol, Mr Dafydd Wigley, Maer Arfon a'i briod a Maer Caernarfon a'i briod.

Estynnwyd y cydymdeimlad dwysaf â Mrs Maureen Roberts, ei briod a'i mab, Paul, Mr a Mrs T. John Roberts, ei rieni, Iona, Reginald a Ronald ei frodyr a'i chwaer. Fe wnaed casgliad o £240 at y South Atlantic Fund.

DIOLCH - Dymuna Bethan, Delfryn, Ffordd Capel Coch, ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra'n yr ysbyty, ac wedi dod adref.

PWYLLGOR BLYNYDDOL

PÊL-DROED - Fe gynhelir cyfarfod blynyddol Clwb pêl-droed Llanberis yn Angorfa, Stryd y Ffynnon nos Fawrth Gorffennaf 6 am 7.30. Mae nifer y rhai sydd ar y pwyllgor yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn ac felly mae'n edrych nad yw'r amser ymhell pryd na fydd digon ar y pwyllgor i gario allan y dyledswyddau angenrheidiol. Erfynnir, felly, yn daer am gefnogaeth yn y cyfarfod yma. - I. Ellis Jones, (Llywydd), Lal Jones (Cadeirydd).

Y CARNIFAL - Mae'r trefniadau yn mynd ymlaen ar gyfer Carnifal 82. Brenhines y Carnifal eleni fydd Ffion Eryl - merch 13 oed Mr a Mrs Ifor Jones, 2 Llainwen Isaf, a'r morynion - Bethan, merch Mr a Mrs Hugh Jones, Maes Padarn, ac Einir, merch Mr a Mrs Eurwyn Thomas, Stryd y

Ffynnon. Gwas y frenhines fydd Cai, mab Mr a Mrs Iwan Lloyd Williams, Graianfryn, Stryd Newton.

YN GWELLA - Da iawn yw deall fod y rhai fu'n cwyno yn ystod y mis yn gwella, rhai wedi dod gartref o'r ysbyty ond eraill yn aros o hyd yn yr ysbyty ond er hynny yr raddol wella.

Wedi dod gartref o'r ysbyty y mae Mrs Parry, 18 Stryd Ceunant, hithau wedi disgyn a thorri ei choes, ond yn awr gartref dan ofalaeth tyner ei merch, Nyrs Glenys Parry.

Mr Robert Hughes, Ffordd Padarn, yntau gartref o ysbyty Glan Clwyd lle bu'n derbyn triniaeth lawfeddygol.

Bethan, merch Mr a Mrs Eurwyn Jones, Delfryn, Stryd Capel Coch, hithau wedi gwella yn hollach ar ôl ei thriniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty ym Mangor, ac mae wedi dychwelyd gartref ac aildechrau ar ei gwaith ysgol.

Gwilym Jones, Pen y Graig, yn yr ysbyty yng Nghaernarfon y mae ond yn araf wella.

Mrs Katie Williams, Derwen Deg, hithau yn ysbyty Minffordd, ac yn hwyliog a doniol fel arfer. Er ei phoen corfforol mae yn ysbrydoli pawb o'i chwmpas ac yn help i godi calon unrhyw glaf. Brysiwch fendio Katie, aelodau Nant Padarn i gyd yn anfon eu cyfarchion i chi.

Miss Katie Owen, Rhes y Faenol hithau wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Yn ôl ei galwedigaeth fel nyrs mae Katie wedi gweinyddu ar ugeiniau o gleifion yn yr ysbyty, ond nawr dyma gyfle iddi gymryd seibiant bach, ac eraill weinyddu arni hi.

Mr Dewi Jones, Ffordd Padarn yntau wedi mynd i ysbyty Môn ac Arfon rai dyddiau'n ôl. Dymunir dychweliad adref yn fuan iawn iddo.

John Elwyn Foulkes. Yn ysbyty Alderhay, Lerpwl mae John Elwyn, mab bach 7 oed i Mr a Mrs Gareth Foulkes, Dôl Elidir, yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Deallwn ei fod yn fachgen bach da iawn yno. Mae wedi derbyn cyfarchion plant Ysgol Dolbadarn yn barod, ac mae llawer o'i gyfeillion o amgylch wedi dymuno adferiad buan iddo. Da iawn Elwyn, byddwch gartref gyda'r teulu yn fuan iawn.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cawsom gwmni Mr Gareth Williams, Archifedd y Sir, yn ein cyfarfod ym mis Mai, a diddorol iawn oedd gwrandao arno'n sôn am hen ddogfennau yn gysylltiedig â'r ardal yma yn arbennig, ac yr oedd yn ein hannog i beidio a gwneud i ffwrdd â hen lythrau, neu bapurau, sydd o werth hanesyddol i'r Sir.

Cydymdeimlwyd ag un o'n haelodau, Mrs Martha Hughes, ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar, ac hefyd anfonwyd cydymdeimlad y Sefydliad at Mr a Mrs T.J. Roberts, Maes Padarn, yn y brofedigaeth trist a ddaeth i'w rhan.

Estynnwyd croeso i Mrs J.M. Hughes, Tan y Clogwyn fel aelod newydd i'r ardal.

CLWB YR HENOED - Ar ddechrau'r mis cyfarfu Pwyllgor Clwb yr Henoed yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs M.B. Hughes. Trefnwyd y trip blynyddol i'r aelodau, ac yn ôl dewisiad y mwyafrif o'r pensïynwyr i'r Rhyl y trefnwyd y trip.

Estynnodd y llywydd, longyfarchiadau'r pwyllgor i'r Cynghorydd Francis Jones ar ei urddo yn Faer Arfon, a'i benodi yn Ustus Heddwch. Estynnwyd longyfarchiadau i ddwy aelod o'r pwyllgor am fod yn neiniau unwaith eto - Mrs Alun Hughes, Stryd Faenol a Mrs Trevor Williams, Coed y Glyn. Hefyd Mrs Morfudd Jones, Erw'r Coed ar ddywedd iad ei mab Robin.

CARFAN IEUENCTID LLANBERIS



Enillwyr Cynghrair Ieuenctid Caernarfon a'r Cylch, cwpan Ieuenctid Caernarfon a'r Cylch, cystadleuaeth 5-bob-ochr a chwpan Ieuenctid Gogledd Cymru.

Cydymdeimlwyd â Mrs Eurwen Parry, Stryd yr Wyddfa ar golli ei thad yng nghyfraith. Pasiwyd i'r ysgrifenyddes Miss Ann Jones, anfon cydymdeimlad y Clwb i Mr a Mrs Thomas Jones Roberts, Maes Padarn yn eu profedigaeth o golli eu mab Raymond yn y Falklands.

TRIPIAU - Misoedd y tripiâu yma ac acw yw misoedd Mehefin a Gorffennaf. Bu trip yr Henoed yn y Rhyl ddydd Sadwrn y 19 ac i'r tywydd fod dipyn yn siomedig mwynhawyd y dydd gan bawb.

Ddechrau Gorffennaf trip yr Ysgolion Sul fydd hi a'r mwyafrif yn tyrru i'r Rhyl. I'r Bala a Llyn Vyrnwy y bydd aelodau'r Clwb Methodig yn mynd.

CYMANFA BREGETHU - Cynhaliwyd Cymanfa Bregethu Nant Padarn ar yr ail Sul o'r mis a chafwyd gwledd yn y dair oedfa. Pregethwyd gan y Parch Ronald Williams, Salem, Caernarfon ac Elwyn Evans, M.A., Bangor. Y cyfeillydd ydoedd Mr Aled Owen, Stryd Siarlot.

CYDYMDEIMLAD - Mae amryw o'r ardalwyr wedi colli rhai annwyl yn ystod y mis ac mae cydymdeimlad yr ardalwyr â hwy yn eu profedigaethau. Cyfeiriwn at: Mrs Martha Hughes, Dôl Elidir sydd wedi colli ei brawd ym Mangor. Alwyn Owen, 3 Stryd yr Wyddfa ar golli ei fam yn Llanrug. Bu'n wael am amser maith a mawr fu gofid ei theulu amdani a thyner iawn fu eu gofal ohoni ar hyd y misoedd. Mrs Margaret Jones, 22 Dôl Elidir a gollodd ei chwaer, Gwyneth, a drigai yn Birmingham ers blynyddoedd. Mr Hugh R. Jones, Bodfair a gollodd ei frawd, Bob, yn sydyn iawn yn Llandudno.

Mr Arfon Phillips, Y Stryd Fawr yntau wedi colli ei frawd, y Parch Ganon Ifor Philips, Corwen.

DAMWEINIAU - Am yr ail waith mewn cyfnod o ychydig wythnosau syrthiodd Mrs Phyllis Roberts, Olgra Terrace a thorri ei choes. Ei braich a dorrodd y tro cyntaf. Anlwcs iawn wir Mrs Roberts, hyderwn y cewch wellhad llwyr yn fuan iawn.

Bu Alwyn, mab Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Stryd Ceunant mewn damwain gyda'i fodwr a chafodd niweidiau erchyll iawn. Bu am beth amser yn yr ysbyty ym Mangor ond deillir ei fod wedi dychwelyd i'w gartref. Dymunir iddo adferiad llwyr yn fuan iawn.

MARWOLAETHAU

Ifor Eifion Parry, - Mai 25 bu farw yn yr ysbyty ym Mangor. Roedd yn 77 oed ac hyd yn ddiweddar wedi bod mewn iechyd gweddol dda. Un o fechgyn yr ardal ydoedd Ifor wedi ei eni a'i fagu a byw ei oes yn gyfan yn yr ardal hon. Pan oedd y Gwaith Nwy yn cynrychu nwy i'r cylch o'r ardal bu Ifor yn gweithio yn galed iawn am flynyddoedd fel taniwr, ac roedd yn

fawr ei barch gan bawb. Hyd yn ddiweddar roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Preswylfa - yr eglwys lle y'i magwyd ef. Claddwyd ef ym mynwent Llanrug, gyda'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn dan ofalaeth y Canon Alun Jones. Cydymdeimlwn ag Anne Parry, ei weddw, yn ei phrofedigaeth.

Miss Jane Ellen Williams - Mehefin 11 bu farw Miss Jane Ellen Williams, Stryd Ceunant yn 96 oed - un o drigolion hynaf yr ardal. Claddwyd hi ym mynwent Llanrug a threfnwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Gorffwysfa gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu galar.

CLWB Y MAMAU - Yn ystod y Trip Dirgel a drefnwyd i'r aelodau, cawsant ymweld â chrochendy yng Nghriccieth, a diweddu'r noson gyda lluniaeth yng ngwesty Clynog, a mwynhawyd noson ddifur iawn gan yr oll o'r mamau ifainc.

ANRHEGU - Yn y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Llanfairfechan anrhegwyd y plant canlynol am eu llwyddiant yn yr arholiadau sirol - Catrin Lloyd Roberts, Merddyn Coch; Nia Wyn Griffith, Llwyn y Piod; Eirian Wyn Hughes, 85 Maes Padarn.

DIOLCHIADAU - Dymunaf ddiolch yn fawr iawn i'r holl gymdogion, cyfeillion, perthnasau pell ac agos a holl drigolion Llanberis am eu caredigrwydd a'r cydymdeimlad a estynnwyd imi yn fy mhrofedigaeth yn ddiweddar. Hefyd hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Dr O.P. Jones, Dr. D. Hughes, Mr Gartside y fferyllydd, Mr Jones fferyllydd Caernarfon a'r nyrsus am y gofal a'r gwasanaeth arbennig a roddwyd mor barod ganddynt yn ystod y tair wythnos y bu fy mhriod yn wael.

Hefyd i'r Parch Canon Alun Jones, y Parch E. Trefor Jones, Caernarfon,



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCW...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

LLANBERIS (parhad)

Mr Huxley Thomas, Mr Myrddin Pritchard a Mr a Mrs Alwyn Owen, Snowdon St.

— Mrs Ellen Parry, 8 Stryd Turner.

YR YSGOL FEITHRIN — Yn ystod yr Wythnos Wyl aeth plant yr Ysgol Feithrin i Fangor i gyfarfod llun mawr o blant bach o Ysgolion Meithrin y Cylch a chawsant hwyl ardderchog yn canu ac actio, a mwynhau eu hunain, wrth gwrs, yn y parti a ddarparwyd ar eu cyfer. Gwelwch

mor ddeniadol yr oeddynt wedi eu gwisgo ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Mehefin 10 aeth yr Ysgol Feithrin a'r Grŵp Mam a'i Phlentyn i fwynhau diwrnod o hwyl yng ngwersyll Butlins. Diwrnod blinedig yn wir, ond diwrnod hapus a difyr, y plantos yn mwynhau eu hunain drwy'r dydd yn y ffair yno — a phawb wedi blino'n llwyr erbyn cychwyn adref. Diolchgar iawn ydoedd y rhieni i'r ysgrifenyddes Mrs Eiddwen Thomas am drefnu'r cyfan ar eu cyfer.



Plant yr Ysgol Feithrin yn barod i gychwyn am Wyl Feithrin Arfon.

CWM-Y-GLO

CLWB POBL Y CWM — Daeth amryw o blant ysgol Mathew Arnold Lerpwl ynghyd â'u hathrawon i wersylla i Betws Garmon wythnos yn ôl. Prifathro'r ysgol yw Mr Emrys Hughes, brodor o'r ardal, sef mab y diweddar Mrs M.E. Hughes, Craig-y-don. Dymunai Mr Hughes i aelodau'r clwb glywed côr plant yr ysgol yn canu rhannau a berfformiwyd yn Neuadd Philharmonic, Lerpwl yn ddiweddar. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn y Ganolfan cyflwynwyd yr athrawon a'r plant gan y llywydd, Mr Llew Hughes, a diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am brynhawn difyr a diddorol gan Mr R. Roberts. Cafwyd gair ychwanegol gan brifathro ysgol y Cwm, Mr Eurwyn Jones, a diolchodd am wahoddiad y clwb ar ran blant ei ysgol. Darparwyd lluniaueth ysgafn i'r gwahoddedigion gan aelodau o'r clwb. Diolchodd Mr Emrys Hughes am y derbyniad croesawgar.

I derfynu'r tymor, trefnwyd pleserdaith i'r Bala ac yna i Grietieth ddydd Mawrth, Mehefin 29 i gychwyn am 10.30 y bore. Hoffai'r clwb ddiolch i aelodau Merched y Wawr am eu cyfraniad sylweddol tuag at y treuliau.

CLWB PÊL-DROED — Nos Lun, Mehefin 7 cynhaliwyd noson lewyrchus o 'Tombola' yn y Ganolfan, yr elw tuag at Dîm Pêl-droed Cwm-y-glo. Enillwyd y raffl oedd — Côt Suede, Mrs Williams, Pant Afon, Cwm-y-glo; Tedi, Mrs Jones, 3 Bryn Gro, Cwm-y-glo; Cyw Iâr, Ada Jones, Ty'n Twll, Brynrefail. Pyrex, Alan Toplis, T.W.B. Potel Sieri, Jonathan Luke Steel, Bryngwyn Mawr, Llanrug. Potel Sieri, C. Roberts, 18 Dolafon, Cwm-y-glo. Potel Sieri, Aled TWB NS. £2.00, A. Roberts, 1 Minffordd, Brynrefail. Tun o fisgedi, Fields, Brodawl, Cwm-y-glo; Casau Cobennydd, Siân Jones, Cefn Bwlch, Cwm-y-glo; Tyweli, M. Jones, 1954 Ferodo.

Dymuna pwyllgor y clwb ddiolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth a gawsant i wneud y noson yn un llwyddiannus dros ben.

LLONGYFARCHIADAU calonnog i dîm pêl-droed Cwm-y-glo am ddod yn ail ym mhencampwriaeth cynghrair gynta Gwyrfa'i ar ôl eu

tymor cyntaf yn y Gynghrair. Buont yn llwyddiannus i guro Nantlle Vale yn y rownd derfynol o gwpan Lonsdale, gyda Gwyn Morris yn cael yr unig gôl o'r gêm, ond colli oedd eu hanes yn rownd derfynol cwpan Bernard Wardle o un gôl i ddim yn erbyn Nantlle Vale. Carwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r tymor.

NOSON GOFFI — Nos Fercher Mai 19 cynhaliodd Merched y Wawr noson goffi i wneud elw i gyfrannu at drip Clwb Pobl y Cwm. Daeth nifer dda yno i fwynhau paned a bisgedi a chyfle i brynu oddi ar y stondin. Enillwyd y raffl oedd Tom Owen, 3 Dolafon — bocs nwyddau, Miss L. Hughes, Tanygraig — bocs siocled a Medi Jones — bocs bisgedi; cystadleuaeth cyw Iâr — Mrs Heulwen Evans a dyfalu pres — Owain Gwyn. Diolch i bawb wnaeth gefnogi drwy ddod yno neu brynu tocynnau.

TRIP DIRGEL — Nos Fercher Mai 16 aeth Merched y Wawr ar drip dirgel i orffen y tymor. Trefnwyd noson bleserus iawn gan Lowri Prys Roberts a Heulwen Evans. Yn ogystal â'r aelodau daeth cyfeillion o Frynrefail a'r Cwm gyda ni.

Roedd y tywydd yn heulog braf a ninnau yn cychwyn am Lŷn. Yng Nghlynnog cawsom ymweld â'r Eglwys a'r Ficer y Parch Idris Thomas yno i'n croesawu a dweud tipyn o'r hanes a phwysigrwyd Clynnog yn yr Eglwys yng Nghymru. Yna cawsom gyfle i fynd o amgylch yr adeiladau godwyd gydag arian y pererinion a ddeuai yma ar eu ffordd i Ynys Enlli.

Dilyn llwybr y pererinion wedyn drwy Lŷn a chael cipolwg ar amryw o adeiladau diddorol fel Ffynnon Beuno, Eglwys Pistyll i lawr wrth y môr, Eglwys Llangwnnadr â'i thair cangell a rhai mwy diweddar fel cofeb Twm Nefyn a Thŷ'r Gwenith lle y cychwynwyd rhedeg y goits fawr i Bwlheli.

I Edeyrn yr aethom bellaf a chael cinio ardderchog yno cyn troi am adre gan obeithio nad oedd ambell un o'r gwŷr wedi blino disgwyl i gario'r wraig adre. Diolchwyd yn gynnes i'r merched am drefnu mor dda gan Mrs Hannah Jones ein his-lywydd.

SWYDDOGION CAPEL GORFFWYSFA 1947



Cyn y daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg bydd yr ail gapel wedi ei gau yn yr ardal, sef Capel Gorffwysfa. Carai Miss Rebecca Williams, Gwenallt, Stryd Newton atgoffa amryw o'r aelodau ac eraill o'r swyddogion a fu'n gweithio mor ffyddlon gyda'n gweinidog yn yr eglwys. Tua'r flwyddyn 1947 y tynnwyd y llun yma. Dyma'r enwau o'r chwith — Thomas

John Roberts, Olgra Teras; Robert Jones, Glandŵr; Harry Gwynedd Hughes, Stryd Warden; William Bellis, Llys Meirion; Evan Llywelyn Williams, brawd Miss Rebecca Williams a Miss Morfudd Williams; Y Parchedig John Pritchard; Richard Roberts, Boberwydd; Ben Thomas, Stryd Thomas, Blaenor ac arweinydd y gân.

UNDEBY MAMAU — Aeth llond bws o aelodau Llanrug a Chwm-y-glo, ynghyd â llawer o ffrindiau am drip dirgel nos Iau Mehefin 10. Ymwelwyd â'r 'Pretty Ugly Pottery' yng Nghaernarfon, ac wedyn ymlaen am bryd o fwyd rhagorol i Westy Plas Isaf, Cricieth. Mwynhawyd y noson er gwaethaf y tywydd gwlyb.

DAMWAIN — Cafodd Mr Graham Hobby, Gernant, gryn niweidiau pan fu mewn damwain ar y ffordd. Deallwn ei fod yn graddol wella; ein cofion ato, a brysied adref.

LLWYDDIANT — Llongyfarchiadau calonnog i Delyth Gwawr, merch Hywel a Margaret Williams, Nant Forgan ar ennill gradd BA gydag anrhydedd, yng Ngholeg Caerwynt. Dylunio yw maes Delyth (Textile Designing), a dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

PRIDAS DDIEMWNT — Ychydig yn ôl, dathlodd Mr a Mrs Ifor Evans, Argraig, Craig y don, eu Priodas Ddiemwnt. Gobeithiwn y cânt lawer blwyddyn o gyd-fyw hapus eto.

CYDYMDEIMLAD — Mae amryw o'r pentref wedi colli anwyliad yn ddiweddar, derbynied y canlynol a'u teuluoedd ein cydymdeimlad dyfnaf — Mrs Annie Hughes, Bryn, a gollodd frawd. Mr E. Pritchard, 23 Dolafon, a gollodd frawd yng nghyfraith. Mrs Ellen Williams, 7 Stryd Newydd, a gollodd chwaer. Mrs Mattie Jones, 11 Dolafon, a gollodd frawd. Mrs Esme Jones, 24 Dolafon, a gollodd frawd. Mrs Blodwen Williams, Mona, a gollodd nith, a Mrs Barbara Owen, Snowdon, a gollodd nith.

O YSBYTAI — Croesawn Mrs Mattie Jones, 11 Dolafon, a Dylan Evans, 15 Dolafon adref o ysbysai, gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

YN Y FALKLANDS — Bu cryn bryder yn y Cwm am ddiogelwch Wyn Sinclair (8 Dolafon gynt), sydd ar ynysoedd y Falklands. Ymunodd Wyn, sy'n ddeunaw oed, â'r Gwarchodlu Cymreig, a hwylodd gyda'r Gatrawd ar y QE2. Hyderwn bellach y caiff ddychwelyd yn ddianaf.

GÊM MEWN 'GWLAD DRAMOR' — Trefnodd Mr Emrys Hughes, a fagwyd yng Nghraig y Don, ac sy'n awr yn ysgolfeistr Ysgol Gynradd Mathew Arnold, Lerpwl, i ddod â thim pêl-droed o'i ysgol i chwarae yn erbyn tîm o Gynghrair dau Gwyrfa'i, ar gae Cwm-y-glo. Hogiau Gwyrfa'i a enillodd, a chyflwynwyd tarian iddynt gan Mr Hughes, gyda'r sylw

mai dyma'r tro cyntaf i'w dîm chwarae mewn "gwlad dramor". Wedi'r gêm, bu hogiau Lerpwl yn cynnal cyngerdd yn y Ganolfan, i ddiddori Clwb Pobl y Cwm. Diolch, Emrys, am ddiwrnod diddorol.

CERDDOROL — Bu Einir a Catrin Gwyn, Min-y-nant yn llwyddiannus yn ddiweddar yn eu harholiadau ysgrifenedig mewn cerddoriaeth dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain. Enillodd y ddwy dystysgrifau anrhydedd, Einir yn arholiad Gradd 2 a Catrin yn arholiad Gradd 1.

I
LOGI
JCB
3C
R. VAUGHAN
1 TAI CAMBRIAN
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 871348

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

LLANRUG

LLONGYFARCHIADAU i Dafydd ac Olwen Jones, Gwên y Wawr. Ddau benwythnos yn olynol bu Dafydd ac Olwen yn cystadlu gyda'u ceffylau mewn Treialon Traws Gwlad yng Nghwm Pennant ac yn Sioe Geffylau Porthmadog. Cafodd Olwen dair gwobr gyntaf: yn y treialon traws gwlad, ac am neidio a bod y farchogwraig orau o dan 12 oed ym Mhorthmadog. Cafodd Dafydd ail yn y treialon traws gwlad a daeth yn ail am neidio dan 14 oed ym Mhorthmadog. Maent yn cael eu hyfforddi gan Louise Kilsby, Penisarwaun.

LLWYDDIANT YN EISTEDDFOD PWLLHELI -

Roeddem yn falch iawn o lwyddiant Gwyn Meirion Roberts, Gregynog, a gipiodd y wobwr gyntaf ar yr Unawd Offeryn Pres o dan 15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Llongyfarchiadau hefyd i'w fam, Mrs Megan Roberts, arweinydd Côr Pedwar Llais Ysgol Dyffryn Nantlle a ddaeth yn fuddugol. Bu Gethin Parry, Bro Dawel yn llwyddiannus yng nghystadlaeth barddoniaeth dan 8 oed. Daeth yn drydydd drwy Gymru. Da iawn, Gethin.

DOSBARTHU'R ECO - Bydd Mr Gwilym Davies, 2, Stad Minffordd yn cynorthwyo Mr Hefin Jones, Pant Mwyn fel Prif Ddosbarthwr yr Eco yn Llanrug rwan. Diolch iddo am ymgymryd â'r gwaith.



Llun Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Hafan Elan a'i merch Mrs Beryl Hall yn torri'r deisen ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed, yng ngwesty Plas-y-Bryn, Bontnewydd. Cyfarchion i Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Hafan Elan, Llanrug, ar gyrraedd ohoni ei 80 mlwydd oed.

Eleni'r gog sy'n pyncio'n glir
Ei deunod yn y coed,
Am fod y ffeindiaf yn y tir
Yn bedwar ugain oed.

Dymunwn oll i chwi yn llon
Ar ddiwrnod pen eich blwydd,
Lawenydd gwir i lenwi'ch bron,
Boed i chwi Dduw yn rhwydd.

Diolch am bob cymwynas hael
A roesoch lawer gwaith
Er cynorthwyo'r gwan a'r gwael
A'u nerthu ar y daith.

Gweddïwn am i'r Arglwydd Dduw
Barhau i'ch cynnal byth,
A bydded i chi ddal yn fyw
Dan fendith hael Ei wllth.

W.O. Roberts

BEDYDDIO - Yn yr oedfa fore Sul, Mehefin 20, bedyddiwyd yng Nghapel Pontrhythallt, Nicola, merch fach John a Gwenllian Edwards, 20 Stad Talybont. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Janice Jones, 19, Bro Rhyddallt ar farwolaeth ei thad a'i nain yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Y SEINDORF - Ar Fehefin 19 roedd y seindorf yng Ngharnifal Llandegfan, a'r diwrnod wedyn roeddynt yn

cymryd rhan yn y Gymanfa Ganu yng Nghapel Mawr, Llanrug ar ddechrau wythnos y Carnifal.

Ddydd Sadwrn y Carnifal roeddynt ar flaen yr orymdaith o Bontrhythallt i'r Ysgol Gynradd.

YN YR YSBYTY - Dymunwn wellhad buan i Mrs Carrie Owen, Tŷ Fry sydd ar hyn o bryd yn yr ysbty.

YR YSGOL FEITHRIN - Aeth llond bws o blant yr ysgol i'r Coleg Normal, Bangor y mis diwethaf i gymryd rhan ym Miri Meithrin Arfon dan ofal Mrs Ceinwen Davies, Porthaethwy. Trefnwyd i Mr Len Jones, Cwm-y-glo ymweld â'r ysgol i dynnu lluniau'r plant, cafodd yr ysgol ran o'r elw.

Yna ar Fai 27 yn yr Ysgol Gynradd, cynhaliwyd disgo wedi ei drefnu gan Mrs Iona Williams, Y Grugan. Mwynhaodd y plant eu hunain yn fawr.

Cafwyd noson gymdeithasol yng Ngwesty'r Foelas, drwy garedigrwydd Mr a Mrs Thomas y perchnogion, wedi ei threfnu gan Mrs Flo Roberts, Glanffynnon. Roedd syniad Flo o noson Caws a Gwin yn newydd i'r pentref a bu'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau noson lwyddiannus ac elw o £50. Diolchwn i Mrs Parry a Mrs Roberts am eu rhoddion at y raffl. Y rhifau lwcus oedd 93 a 65. Gobeithio y cawn noson debyg yn y dyfodol agos!

Os oes gan rywun o ddarllenwyr yr Eco deganau y gall plant eistedd arnynt (mewn cyflwr da) bydd yr ysgol yn falch ohonynt. Cysylltwch â'r athrawes, Mrs Ann Owen, ffôn C'fon 4301 neu'r ysgrifennydd, Mrs Meirwen Lloyd, C'fon 5359.

Cydymdeimlir â Mrs M. Evans, Lloc, Llywydd yr Ysgol Feithrin yn ei phroffedigaeth yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR - Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr a arweiniodd Cangen Llanrug o Ferched y Wawr ar daith ar Fehefin 8 - yn gyntaf aed i Eglwys Clynnog pan roddwyd hanes yr eglwys gan y ficer. Yna ymwelwyd â Ffynnon Cybi yn Llanybi. Yna ymlaen am Gricieth ac i westy Plas Gwyn, Pentrefelin. Diolchwyd i Mrs Vaughan Jones ac i'r trefnydd gan Miss Phyllis Ellis.

Ar yr 28ain o'r mis ymwelodd y BBC â ni i recordio 'Malu ar yr Awyr' yn yr Ysgol Gynradd.

CLWB BLODAU'R GRUG - Ddydd lau, Mehefin 10 cynhaliwyd Clwb Blodau'r Grug yn y Neuadd Goffa, dan ofal y Llywydd, Mr J. Williams, Gwledfa.

Y wraig wadd oedd Mrs M.L. Williams, Llys Awen pryd y rhoddodd anerchiad diddorol ar y testun Seremoni y Frenhines ar ddydd lau y Gorchymyn.

Diolchwyd iddi gan Miss M.G.

Roberts, Ganllwyd ac ategwyd y diolch gan Mrs I. Butler, Haddef.

Cydymdeimlwyd â Mr Owen Owens, 22 Bro Rhyddallt ar golli ei briod, hefyd â Miss M. Owen, 3 Plastirion Terrace, Mrs M. Lewis Madryn House a Mrs N. Owen Tringle. Cafwyd rhodd gan Mr Owen er cof am ei briod.

Hefyd dymunwyd gwellhad buan i'r Mrs K.A. Pritchard, Tanycoed a Mrs K. Williams, Mor Awel, Tanycoed.

Rhodddwyd y te gan Mrs M. Owen, Is y Bryn; Mrs Rhys Owen, Gwynant; Mrs M. Williams, Dwyfor; Mrs Williams, Bryn Beuno; Mrs K.A. Pritchard - oll o Danycoed.

Enillwyd y Raffl oedd yn rhoddedig gan chworiydd y te gan Mr J. Williams, Gwledfa.

Bydd y wibdaith ar Orffennaf 7. Bydd y bws yn gadael Tanycoed am 12.15 o'r gloch, ac o sgwâr Llanrug am 12.30 o'r gloch.

PEDAIR CENHEDLAETH



Yn ddiweddar, teithiodd Mrs Griffith, Dolanog, Llanrug hanner ffordd o amgylch y byd i dreulio pum wythnos yng nghartref ei mab Hywel a'i wraig Dilys a'r plant yn Whyalla, De Awstralia.


Llyfrgellydd mewn coleg yw Hywel ac mae ganddo dri mab a thair merch. Roedd yn bleser arbennig i Mrs Griffith gael cyfarfod am y tro cyntaf ei gorwyrion Nicky a Deiniol.

Yn y llun mae Mrs Griffith, Hywel, ei ferch Delyth a'i mab Nicky.

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Llanrug Hydref 9 eleni. Bydd y testunau ar werth yn fuan.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

O GARNIFAL LLANRUG



Dyma i chi ddwy hysbyseb dda i unrhyw garnifal! Gwisg neu'n hytrach focs lola Non a ddyfarnwyd yn orau yn y carnifal. Bryn, ei brawd sydd yn y tun bins.

LLANRUG parhad

CLWB CANT - Dyma enillwyr y ddau fis diwethaf. 1. Valmai Owen, 2. T.W. Thomas, 3. Hefin Jones.
1. Sandra Trefor, 2. John Roberts, 3. H. ac E. Gwynn.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

DIOLCH

£97.10 oedd y swm a gasglwyd o ganlyniad i haelioni noddwyr Marathon yr Eco dro yn ôl. Ein diolch i Owain a Paul am redeg ac i deulu Owain am eu cymorth parod a'u brwdfrydedd. Diolch yn fawr i'r holl noddwyr ac i bawb a roddodd o'u hamser. Defnyddir yr arian i gynnal yr Eco.

CASGLU £250 AT NANT GWRTHEYRN



Yn dilyn taith feic nodedig yn ddiweddar, casglodd Ysgol Gynradd Llanrug dros £250 at Gronfa Iaith Nant Gwrtheyrn. Cyflwynwyd y sic i gyfarwyddwr y ganolfan, Gwyn Williams gan David William Roberts.

Arddangosfeydd yn Oriel Eryri, Llanberis

- 14 Mehefin - 12 Medi - Landsat - dadansoddiad o lystyfiant Gwynedd.
- 14 Mehefin - 12 Medi - Detholiad o Gasgliad Tunnicliffe - peintiadau a cherfiadau o anifeiliaid ac adar.
- 14 Mehefin - 12 Medi - Llyfrau Cynnar a'r Gwyddorau Natur - detholiad o lyfrau o lyfrgell yr Amgueddfa, a gyfrifir yn bwysig yn natblygiad y gwyddorau natur.
- Gorffennaf - 12 Medi - Llewelyn ap Gruffydd.
- 14 Gorffennaf - 12 Medi - 75 Pen-blwydd Adareg yng Nghymru - hanes a thwf adareg yng Nghymru yn ystod y 75 mlynedd diwethaf. Y mae'r arddangosfa yn deyrnged i'r Cynol H. Morrey Salmon am ei gyfraniad i astudiaeth adar.
- 24 Gorffennaf - 12 Medi - Rheilffyrdd Cymru - arddangosfa fawr o ffotograffau yn darlunio'r modd y datblygodd y sustem rheilffyrdd yng Nghymru mewn cyfnod o dros 200 mlynedd.
- Diwedd Awst - ganol Hydref - Arddangosfa Sefydliad Gwyddorau Daearegol - gwaith yr S.G.D. yng Nghymru ym maes ymchwiliad daearegol.

ENNILL JACPOT

Gŵr a gwraig o Ddeiniolen enillodd y jacpot ar y cwis teledu 'Sion a Sian' yn ddiweddar. Enillodd Ellis Wyn a Margaret Williams, 6 Ffordd Deiniol y swm o £1,000. Diddorol yw nodi fod un o'r cwestiynau y bu'n rhaid iddynt ei ateb wedi ei anfon i'r rhaglen gan Katherine Evans o Benisarwaun.

LLANBERIS AM FRWYDRO I GADW'R MAES PARCIO

Penderfynwyd mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis, Mehefin 17 i wrthwynebu bwriad y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i godi'r maes parcio a'r ffordd sy'n arwain iddo rhwng y ddau lyn. Y Bwrdd Trydan fu'n gyfrifol am adeiladu'r ffordd-bont a'r maes parcio, (sy'n dal tua 200 o geir) ar gyfer eu anghenion eu hunain pan ddechreuwyd ar y cynllun Heidro rai blynyddoedd yn ôl.

Trefnwyd y cyfarfod gan Gyngor Cymuned Llanberis a daeth cryn dipyn o bobl i Festri Gorffwysfa i leisio eu barn.

Yn ei ragymadrodd rhoddodd maer newydd Arfon, y Cynghorydd

Francis Jones amlinellid o'r broblem. Yn ôl deddf a basiwyd yn 1973 mae'n rhaid i'r Bwrdd Trydan - gan iddynt gael caniatâd i dyllu i grombil y mynydd, sicrhau eu bod yn adfer yr ardal pan ddaw'r gwaith i ben. Felly o safbwynt y Bwrdd Trydan ac yn ôl eu dehongliad hwy o'r ddeddf fe ddylid codi'r maes parcio a'r ffordd ac yna fynd ati i dirlunio lle buont. Mae'r ffordd a'r bont o ansawdd ragorol ac yn sicr o fod wedi costio'n ddrud iawn i'r Bwrdd i'w hadeiladu. Ymddengys felly yn wastraff ar adnoddau i'w codi. Ond prif thema'r cyfarfod cyhoeddus oedd yr angen mawr sydd yn Llanberis am ragor o le i barcio. Bydd y gwaith trydan-heidro yn denu miloedd o bobl i'r pentref yn y dyfodol. Tystiodd sawl siaradwr fod y cyfleusterau parcio presennol yn

gwbl annigonol, a'r teimlad oedd na roddwyd digon o sylw i effaith y cynllun ar Lanberis.

Trefnwyd deiseb cyn y cyfarfod a chasglwyd dros 700 o enwau'r trigolion sy'n dymuno i'r maes parcio a'r ffordd gael eu cadw. Yn ychwanegol at hyn cafwyd cefnogaeth yr Aelod Seneddol a'r gwahanol gyrff cyhoeddus.

Pwysleisiwyd mor wahanol yw'r sefyllfa yn Llanberis heddiw i'r hyn oedd yn 1973 - sef adeg pasio'r ddeddf. Soniwyd am y Gilfach Ddu, yr Orsaf a Pharc Gwledig Padarn - ac mor angenrheidiol yw'r ffordd i'w gwasanaethu.

Teimlai'r cyfarfod fod ymgynghorydd y B.C.C.T., Syr Frederick Gibbard wrth baratoi ei adroddiad yn argymhell codi'r maes parcio a'r ffordd wedi bod yn rhagfarnllyd. Ceisiodd ddangos drwy gyfres o ddarluniau o'r ardal pahan y dylid gwneud hyn.

Ar ôl cwblhau'r gwaith mae'r Bwrdd Trydan yn disgwyl tua mil o bobl y dydd (yn nhymer y gwyliau poblogaidd) i ymweld â'r gwaith. Golyga hyn rhwng 300 a 400 o geir y dydd.

Mae rhan o ddeddf 1973 yn datgan bod yn rhaid i'r B.C.C.T. gyd-fynd ag unrhyw "gais rhesymol" a bwriad pobl Llanberis yw dangos yn glir bod y cyfleusterau hyn yn angenrheidiol i ddyfodol eu pentref.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

- £2.50 Mrs M. Byrne, Aberhonddu
- £2.00 Mr a Mrs O.W. Humphreys, 3 Gwastadnant, Nant Peris
- £1.80 Di-enw Clwt y bont.
- £1.50 Owen Jones, Talwrn, Môn.

CADEIRIAU OLWYN

Nos Sadwrn, 19 Mehefin, cyflwynodd Clwb Llewod Bangor, gadair olwyn i gynrychiolydd o Bwyllgor Rhanbarth Arfon o Gymdeithas Gwynedd i'r Anabl. Gobaith y pwyllgor yw derbyn mwy o gadeiriau olwyn gan glybiau cyffelyb a'u lleoli yn swyddfa'r Cyngor Gwlad, 2 Cei Llechi, Caernarfon.

Bydd y cadeiriau ar fenthyg i Anabl Arfon. Hefyd gobaith y pwyllgor yw rhoi benthyg y cadeiriau olwyn i ymwelwyr sydd yn dod i dref Caernarfon.

Yn barod mae cadair olwyn ar gael i anabl Llanrug ar ôl ymdrechion clodwiw plant yr ysgol leol.

Os dymunwch wybodaeth bellach, cysylltwch â:

J.R. Jones,
Cyngor Gwlad Gwynedd,
2, Cei Llechi,
Caernarfon.

Ffôn: Caernarfon 2626.

Y GWNINGEN

Un gwningen fechan
Yn chware yn yr ardd,
Lle tyfai amryw lysiau
A blodau lliwgar, hardd.

Un gwningen fechan -
Ond meddai'r garddwr craff,
"Ddaw hon ddim yma 'fory,
Mae hynny yn bur saff."

Ni wn beth fu hanes
Y bwni fechan lwyd,
A fentrodd i ardd Gwelfryn
I geisio pryd o fwyd.

Draenog

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

06190 – O CHWECH I NAW DEG! BLODAU



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
DYFRIN
Y
DEWIN

CHWEDLAU MORLADRON YR YNYSOEDD PELL

GWYDION A'R MÔR-LADRON DUON

ROEDD Gwydion Wyrdd y Môr-leidr wedi bod yn chwilio am emau ers blyneddau. Roedd ganddo ddigon o aur, ond gwell ganddo oedd gemau. Hwyliai o ynys i ynys yn chwilio am emau. Roedd yn darganfod aur yn aml, ond nid oedd gemau i'w cael yn unman.

Un diwrnod, wrth hwyllo heibio i ynys, gwelodd dân ar y traeth. Llywiodd ei long yn nes i'r lan, a gwelodd ryw beth du wrth y tân. Roedd y "rhywbeth du" yn symud, ac yn rhoi coed ar y tân. Gallai Gwydion weld mai gwrach oedd y "rhywbeth du"!

Glaniodd Gwydion a cherdded ar hyd y traeth tua'r wrach. Roedd Gwydion yn cerdded yn ddistaw iawn, ond roedd y wrach wedi ei glywed.

"Beth wyt ti eisiau?" gofynnodd y wrach.

"Gwydion ydw i. Roeddwn i wedi gweld y tân ar y traeth."

"Wel," meddai'r wrach ddu, "rwyd ti wedi gweld y tân ac wedi ngweld i. Dos yn ôl i dy long. Mae'n gas gen i fôr-ladron gwyrdd."

"Ond rydw i angen dy help," meddai Gwydion.

"Rydw i'n gwrthod helpu neb," meddai'r wrach. "Dos i ffwrdd!"

"Rydw i'n fodlon talu am dy help," meddai Gwydion. "Mae gen i lond sach o aur ar fy llong."

"Aur," meddai'r wrach ddu. "Aur! Hm. Wel, efallai y cei di help wedi'r cyfan. Beth wyt ti eisiau?"

"Rydw i eisiau gemau," atebodd Gwydion. "Mae môr-ladron eraill eisiau aur, ond mae gen i ddigon o aur, a rwan, rydw i eisiau gemau."

Edrychodd y wrach ddu ar Gwydion. Yna, edrychodd allan i'r môr. Yna edrychodd i'r tân, ac yn olaf, edrychodd yn ôl ar Gwydion, a chwarddodd. Nid oedd Gwydion yn hoffi sŵn y wrach yn chwerthin. Doedd Gwydion ddim yn teimlo'n hapus iawn.

"Rydw i'n mynd yn ôl i'r llong," meddai Gwydion. "Mae'n amlwg nad wyt ti eisiau helpu."

"Aros," meddai'r wrach ddu. "Aros. Fe gei di help gen i – am lond sach o aur."

Daeth Gwydion yn ôl at y wrach.

"Edrych draw i'r môr. Mae ynys fechan ymhell ar y gorwel. Weli di'r ynys?"

"Gwelaf," meddai Gwydion.

"Da iawn," meddai'r wrach.

"Dyna Ynys y Môr-ladron Duon."

Mae digon o emau ar yr ynys."

"Ynys y Môr-ladron Duon?"

"Roedd Gwydion wedi dychryn clywed yr enw."

"Ond fedra'i ddim mynd yno," meddai. "Bydd y Môr-ladron Duon yn siŵr o'm lladd."

"Mae'n berffaith ddiogel i ti fynd yno," meddai'r wrach ddu. "Ond i ti wneud yn union fel rydw i'n ei ddweud."

Gwrandawodd Gwydion yn ofalus ar y wrach ddu yn egluro sut i ddwyn y gemau oddi ar Ynys y Môr-ladron Duon.

"Mae'r Ynys yn hir a chul. Mae creigiau bychan ar un pen ac yno mewn ogof fechan mae'r gemau wedi eu cuddio. Fe fyddi'n berffaith ddiogel, oherwydd mae'r Môr-ladron Duon yn byw ar ochr arall yr ynys."

Ond nid oedd Gwydion yn hapus o gwbl.

"Beth pe bai'r Môr-ladron Duon yn fy ngweld?" gofynnodd. "Fe fyddaf yn siŵr o gael fy lladd wedyn."

"Na fyddi," meddai'r wrach ddu, "fe gei di botelaid o ddiod hud gennyf. Dim ond yfed o'r botel hon ac ni fydd yn bosibl i'r Môr-ladron Duon dy ladd."

Rhoddodd y wrach botel fechan ddu i Gwydion a'i anfon yn ôl i'r llong i nôl yr aur. Lluchiodd Gwydion sach o aur i'r

L	L	N	O	I	L	I	E	M	D	L	N	P	N
O	Y	G	R	U	G	I	B	A	N	A	D	L	O
B	G	Y	A	R	R	S	G	Ch	R	W	C	S	I
E	A	M	S	L	T	R	A	F	E	L	O	N	Ch
R	D	L	Y	G	A	D	Y	D	Y	D	N	E	O
Y	E	S	C	U	O	C	G	Ch	U	G	N	G	C
D	B	P	M	N	N	R	A	R	H	O	E	D	O
E	R	A	A	A	I	U	P	G	N	I	Y	Th	E
O	I	Ng	F	B	R	P	Y	I	F	H	S	I	S
R	L	A	L	G	I	N	H	D	O	O	G	R	Y
T	R	R	H	O	S	Y	N	Y	C	W	N	A	F
C	D	G	R	D	E	W	C	R	I	N	L	Y	S
L	I	L	I	C	G	L	A	F	A	N	T	Y	P
S	E	P	A	U	W	E	L	Y	T	N	A	D	S

Mae'r blodau hyn i gyd wedi eu cuddio'n y sgwâr uchod:—

Ysgorionllys, Llygad y Dydd, Rhosyn y Cŵn, Crafanc y Frân, Eirlys, Crinllys, Dagrau Mair, Gwyddfid, Ysgall, Troed yr Ebol, Byssedd Cochion, Meillion, Clychau'r Gog, Pidyn y Gog, Llygad Ebrill, Banadl, Y Frithogen, Dant y Llew, Cenhinen, Grug, Pinc, Pabi, Lafant, Lili, Rhuddos.

wrach ddu a hwylodd i ffwrdd am Ynys y Môr-ladron Duon.

Yn ôl ar y traeth, eisteddodd y wrach ddu wrth ei than. Dechreuodd chwerthin, a chwerthin, a chwerthin.

"Y Môr-leidr Gwyrdd gwirion," meddai wrthi ei hun, "mae'r gemau i gyd ym mhen arall yr ynys, ac y mae'r Môr-ladron Duon yn cuddio'n yr ogof."

Chwarddodd y wrach ddu eto ...

"Ac os bydd o'n ddigon gwirion i yfed o'r botel ddu ...!"

A chwarddodd y wrach unwaith eto. Pe bai Gwydion wedi ei chlywed yn chwerthin ni fyddai wedi teimlo'n hapus o gwbl; ond erbyn hyn, roedd ar ei ffordd i Ynys y Môr-ladron Duon.

Y TRO NESAF: Beth sydd yn y botel fach ddu?

A fydd y Môr-ladron yn lladd Gwydion?

Atebion: Dinasoedd ar Goll.

Oslo, Caracas, 8. Moscow, 9. Warsaw, 10. Lima, 7.

DINASOEDD AR GOLL

Mae deg o ddinasoedd mawr wedi eu cuddio yn y brawddegau canlynol. Pa rai?

1. "Mae angen chwip ar Islwyn," meddai ei fam.
2. Neidiodd cath Endaf i ben to'r garej.
3. Cai roddodd gweir iawn i'w frawd bach.
4. Mae tri poli parot gan nain, ond dim ond un sy'n siarad.
5. Roedd chwain yn y gwely, a dechreuodd Ella gosi'n annifyr.
6. Mae doli Mair wedi malu.
7. Mae'r hen ffarmwr yn defnyddio car a caseg i deithio – yn ôl y tywydd ar y pryd!
8. Sam, os cowper yw dy waith, gwna gasgen i mi.
9. Rho dy law ar sawdl yr esgid; mae bron â gwisgo'n dwll.
10. Yn ddi-os, loncian sy'n boblogaidd heddiw.

1. Paris, 2. Athen, 3. Cairo, 4. Tripoli, 5. Lagos, 6. Lima, 7.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG


Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Y FLAMINGO



LLIWIWCH YR ADAR

1. Gwyrdd golau.
2. Melyn.
3. Glas tywyll.
4. Pinc.
5. Brown golau.
6. Glas golau.

Y flamingo yw un o'r ychydig greaduriaid sy'n medru byw yn nyfroedd llynnoedd marwol canolbarth Affrica. Mae'r llynnoedd hyn; rhai fel Llyn Natron a Llyn Nakune yn llawn o halwyni marwol, ond eto i gyd gwelir miliynau o'r adar hyn yn llymeitio yn y dŵr.

Maent yn cael eu bwyd a'u lliw yma. Oherwydd fod y llynnoedd yn cynnwys canthaxanthin, sy'n debyg iawn i Fitamin A, mae'n rhoi lliw pinc anghyffredin i'r aderyn. Oddi wrth y llynnoedd, mae'r flamingo yn tueddu i droi'n wyn ei liw, ond mewn sŵs ledled y byd maent yn cael eu bwydo'n arbennig â canthaxanthin er mwyn peidio â siomi'r ymwelwyr. Rhyfedd o fyd!

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CASGLU CERRIG

Offer Angenrheidiol

Mae rhai pethau'n hanfodol i'r casglwr cerrig. Dyma restr o rai o'r offer a fyddai'n ddefnyddiol iddo os yw am gymryd ei hobi o ddifrif.

1. Llyfr Nodiadau

Dylai'r casglwr gadw cofnod o bob enghraifft a gesglir. Rhaid gwneud llun o'r math o garreg a gasglwyd, gan nodi'r union fan a'r dyddiad. Gall y llun a'r wybodaeth fod o gymorth i benderfynu pa fath o garreg yw.

2. Morthwyl a Chŷn

Mae morthwyl daearegol arbennig i'w gael, ond fe wna morthwyl haearn heb fod yn rhy drwm, y tro i ddechrau.

Mae angen cŷn â llafn gwastad iddo, tua tri chwarter modfedd o led.

3. Bag Cryf

Bydd ei angen i gario'r holl offer, a hefyd i gario'r gwahanol fathau o


gerrig. Byddai'n fanteisiol cael bag y gellir ei gario ar eich cefn.

4. Menig Cryf a Gwydrau

Oherwydd fod angen curo craig â'r morthwyl yn aml er mwyn cael sampl o garreg, bydd angen menig i arbed y dwylo, a gwydrau i arbed y llygad rhag i sglodion carreg dasgu o'r graig.

5. Bocs o Hancesi Papur a Dalennau o Bapur Newydd

Os ceir sampl arbennig o dda, dylid ei lapio'n ofalus mewn hances bapur i arbed yr wyneb, ac yna ei lapio eto mewn papur newydd i'w arbed rhag cael ei daro'n erbyn cerrig eraill yn y bag.



CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsî a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Gontract

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

WAUNFAWR

BREHINES Y CARNIFAL A'I GOSGORDD

YR YSGOL - Yn yr Ymgyrch Lyfrau eleni gwerthwyd 118 o lyfrau gwerth £175. Y plant a gymerodd ran oedd Elliw Iwan, Nan Wyn, Siân Lloyd Jones, Helen Hughes, Siân Rowlands, Corrine Ackers, Lynne Jones a Karen Roberts. Diolch i bawb a'u cefnogodd.

Bu holl blant yr ysgol yn Theatr Seilo, Caernarfon yn gweld y ddrama 'Doctor Dewin' gan gwmni Theatr Cymru a bu'r cwmni Bara Caws yn yr ysgol yn perfformio 'Diwrnod i'r Brenin', sef drama seiliedig ar hanes bywyd Llywelyn Ein Llyw Olaf.

Ddydd Gwener, Mehefin 18 aeth holl blant yr Adran Iau am drip. Ymwelwyd â Thrawsfynydd i weld cofgolofn Hedd Wyn ac yna i Lanfihangel y Pennant i weld cofgolofn ac olion cartref Mari Jones. Ar ôl taith ar trên fach Taly-y-llyn o Abergynolwyn i Dywyn aethpwyd ymlaen i'r Bermo. Treuliodd y plant rai oriau yn mwynhau eu hunain yno cyn dychwelyd gartref.

Y mae plant yr Adran Iau, o dan hyfforddiant Mrs E. Eames, yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer eu cyngerdd 'Noson Gerddorol' ddydd ola'r mis (30 Mehefin). Dafydd Iwan yw'r canwr gwadd a'r Gŵr Gwadd yw Mr John Roberts, prifathro Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

Y CARNIFAL - Gweithgareddau'r wythnos:

Nos Wener, Gorffennaf 2 - Coroni'r Frenhines Sandra yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Dawnsio Gwerin i ddilyn o dan ofal Len Jones, Penisarwaun. Mynediad, oedolion 30c, plant 10c.

Nos Lun, Gorffennaf 5 - Mabolgampau yng Nghae'r Ysgol am 6.30. Mynediad trwy raglen y carnifal: 35c.

Nos Fercher, Gorffennaf 7 - Gemau Giamocs (cystadleuaeth rhwng 3 thim o'r pentref) yng Nghae'r Ysgol am 6.30. Mynediad, oedolion 20c, plant 10c.

Nos Iau, Gorffennaf 8 - Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr yng Nghae'r Ysgol am 6.30. (Cysylltwch ag Edgar Owen, Gilfach neu Keith Owen, Tŷ Capel).

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 10 - Y CARNIFAL yng Nghae'r Ysgol gydag Arfon Wyn (Pererin) a'i wraig Nia yn beirniadu y cystadlaethau Gwisg Ffansi a'r Gystadleuaeth Fabanod. Stundinau a'r Caffi. Mynediad trwy raglen: 35c.

Nos Sadwrn - Swper y Carnifal yng nghwmni PERERIN yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis am 8.30. Pris £3.50 yn cynnwys bwyd mewn basged a bws. Bydd y bws yn cychwyn am 8.00. Enwau ac arian i: **Carys Owen, Gilfach; Bethan Williams, Bryn Meurig** neu **Llinos Cadwaladr, Glyn Afon.**

(Elw'r gweithgareddau at yr Ysgol Feithrin)

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Mehefin 3.

Yn ei haraith agoriadol estynnodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, groeso i Mrs Katie Wynn Jones i'r cyfarfod ar ôl ei hymwelid â'r ysbyty. Dymunodd adferiad buan i Mrs Doris Roberts a llongyfarchodd Mrs Morfa Evans ar enedigaeth ŵyr bach. Dymunodd pob llwyddiant i Stephen Nesfield yn ei yrfa gyda'r Heddlu.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y mis diwethaf a'u trafod. Cynhelir Sioe Gynnyrch a Gwaith Llaw yn yr hen ysgol Bontnewydd ddydd Iau, Medi 23.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y gŵr gwadd, Mr Twiss o Nantlle, ar hen ddodrefn. Diolchodd Mrs Parry Williams iddo. Enillodd Mrs Peggy Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Bet Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Gorffennaf 1 pryd fydd Mrs Glenys Williams, Ederon yn rhoi arddangosfa goginio.

YR URDD - Roedd 'collage' o waith Osian Gwynedd ar y testun 'Mewn Gardd' yn rhan o arddangosfa Gelf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol 12



Sandra Jones - Y Frenhines.



John Coles - Gwas y Llŷs.

yr Urdd Llŷn ac Eifionydd ym Mhwllheli. Llongyfarchiadau iddo.

PLAID CYMRU - CLWB 100 - Mis Mai - 1. Iris Owen, £8; 2. Luned Roberts, £4; 3. Mrs Mwynwen Jones, £2.50. Mis Mehefin - 1. Dr. Miles, £8; 2. Delyth Williams, £4; 3. Eurig Wyn, £2.50.

LLONGYFARCHIADAU - I Dafydd Glyn Williams, Coed Gwydryn ar ei ddychafiad i Fanc y National Westminster yng Nghaergybi. Dafydd yw'r aelod ieuengaf o 70 o ganghennau i gael Graddfa 3.

I Ann Dawson, 5 Bro Waun, ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fehefin 24. I Mrs J. Awstin Jones ar fod yn nain eto. Ganwyd merch i Gwilym Morris ac Eleri.

Ac i Mr a Mrs Peter Evans, Preswylfa, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i Dafydd a'i wraig. I Alwyn Jones, Bryn Gwenallt, ar ei briodas â Helen Thomas o Cesarea. Dymuniadau gorau i Mr T.E. Jones, Cartrefle a Mr Emlyn Davies, Bodwyn ar eu hymddeoliad o'r Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu Mr Jones yn Brif Weithredwr yno am tua 20 mlynedd a Mr Emlyn Davies yn Brif Glerc yn yr un swyddfa.

BEDYDD - Fore Sul, Mehefin 13 yng Nghapel Bethel M.C. bedyddiwyd Iolo Rhisiart, mab bychan Dic a Jean, Llwyn Onn, gan y Parchedig Bryn Roberts, Y Ffôr.

YN YR YSBYTY - Drwg iawn gennym glywed fod Mrs Myfanwy Williams, Eirianallt yn ôl yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion ati a dymunwn wellhad buan iddi hi, a Mrs Carrie Owen, Y Becws sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol. Hefyd Mr Eric Jones, 22 Tref Eilian sydd yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon a Miss Jane Elin Hughes, Ael y Bryn sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

ADREF O'R YSBYTY - Croeso adre o'r ysbyty i Geraint Williams, Gwylfa; Mr Stan Anderson, Bod Arfon; Gwen Pritchard, Tref Eilian; Mrs Alma Jones, Tan y Fron; Mrs Doris Pritchard, Dwyros; Mrs Lywela Davies, Tref Eilian; Mrs K. Wynn Jones, Bron Eifon; David Lewis, 12 Bryn Golau a Mrs M. Griffiths, Tan 'Rallt. Gobeithio eu bod yn dal i wella. Gobeithiwn hefyd fod Mrs Pritchard, Tref Eilian yn gwella ar ôl llithro yn yr ardd a brifo ei braich. Ein cofion at bawb sydd yn wael yn eu cartrefi.

CYDYMDEIMLWN - A Mr Michael H. Williams, Arfon House, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli brawd ifanc mewn damwain yn y Fyddin yng Nghanada.



Debra Ann Roberts - Morwyn.



Nicola Longmead - Blodeuferch.

Â Mrs J. Griffiths, Tref Eilian ar golli brawd yn Llanfairfechan.

Â Mrs L. Pritchard, a'r teulu, 19 Bro Waun, ar golli priod a thad, Mr Dan Pritchard.

Â Mrs J. Awstin Jones a Mr O.P. Pritchard ar golli brawd, sef Mr Dan Pritchard.

Â Mrs Edith May Owen, Bryn Peris, ar golli ei chwaer, sef Mrs N. Hughes, Dôl Afon gynt, a fu farw yn Southampton.

YN EISIAU - Piano heb fod yn rhy fawr, mewn cyflwr da. Ffôn Waunfawr 626.

Mae **GOFALWR PLANT** COFRESTREDIG ar gael i ofalu am fabi neu blentyn o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9 o'r gloch tan 5. Cysylltwch â Mrs Rosina Owen - Ffôn Waunfawr 704.

MERCHED Y WAWR - Nos Iau, Mai 27 treuliwyd noson addysgiadol iawn yng nghwmni y Dr. Llŷr Griffith, Curadur Oriel Eryri yn Llanberis, yn dangos sleidiau ac yn rhoi sgwrs am yr amgylchfyd. Llywydd y noson oedd Mrs Irene Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Gillian Wyn. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Iris Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Jones, Pant Cae Haidd.

Yr oedd angen dwy i gynrychioli'r gangen yn y Gynhadledd yn Aberystwyth ym mis Mai, ac yno yr aeth Gweneirys Jones a Mary Vaughan Jones. Mae yna drefniant cyfleus gan Rhanbarth Arfon erbyn hyn - bws yn casglu dwy aelod o bob cangen, a'r sgwrsio ar y bws yn ddifyr dros ben - a'r Gynhadledd yn agoriad llygad.

Cynhaliwyd Gŵyl Wanwyn Gwynedd yn Safle'r Fenai ac aeth amryw ohonom o'r Waun yno a chael diwrnod braf yn cymdeithasu efo merched o bob rhan o Wynedd. Y siaradwyr oedd y Dr Eirwen Gwyn a'r

Dr Iolo Griffith ar y testun o 'Gadw'n Iach'.

Yn Rali'r Ffermwyr Ifainc yng Nglynllifon yn ddiweddar merched Rhanbarth Arfon oedd yn gyfrifol am y bwydo. O'r Waun bu Gweneirys Jones, Irene Roberts, Glenys Jones a Nan Huws Roberts yn brysur yn casglu'r bwydydd yn y Waun ac wedyn yn gweinyddu yng Nglynllifon.

Y swyddogion a'r pwyllgor am y tymor nesaf fydd: Irene Roberts (Llywydd), Glenys Jones (Trysorydd), Llinos Cadwaladr (Ysgrifennydd), Beryl Jones, Cadi Jones, Rhian Ellis, Iona Williams, Gweneirys Jones, Gillian Wyn, Sylvia Jones, Carys Owen, Greta Hughes a Mary Davies. Croeso calon i aelodau newydd.

EGLWYS EFENGYLAIDD GWYRFAI

Pregethwyr Mis Awst 1982

- AWST** 1. Y Parch Dafydd Job BD, Llandrillo
8. Y Parch John Morris BD, Llanrhaeadr Y.M.
15. Y Parch Robert O. Roberts BSc BD, Dyffryn Conwy
22. Y Parch John Pritchard BA BD, Abersoch
29. Y Parch Emyr Roberts BA BD, Y Rhyl

10.30am yn Festri Moreia, Groeslon, Waunfawr.
Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Thomas John Pritchard, Tref Eilian, ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

YN YR YSBYTY - Griffith Hughes Roberts, Dôl Erddi a W.T. Owen, Noddfa, Tref Eilian.

ENNILL TARIAN - Trwy garedigrwydd Mrs Ann Marston, derbyniwyd tarian hardd i'r ysgol i'w hennill yn flynyddol gan y disgybl gyfrannodd fwyaf i gerddoriaeth yn ystod y flwyddyn ysgol. Rhoddir replica o'r darian i'r enillydd i'w cadw. Yr enillydd cyntaf yw Elliw Iwan, ac mewn seremoni yn yr ysgol bnawn Gwener, trosglwyddwyd y darian iddi gan Mr John Huw Davies, Prif Drefnydd Cerdd Gwynedd. Yn bresennol hefyd yr oedd Dr R.S. Williams, Cadeirydd y Rheolwyr a Mrs Ann Marston (Gweler Llun isod.)

AR WERTH

Pram Pedigree mewn cyflwr da, matres, basged etc. £30.
Ffôn: Llanberis 870491

Radio Murphy yn gweithio oddi ar drydan a batris. Fel newydd. £10.
Ffôn, Llanberis 871340

YN EISIAU

Tow bar ar gyfer Volkswagen Golf.

Ffôn Caernarfon 5605

Bwrdd Hysbysebu Gwely a Brecwast
Ffôn Caernarfon 3496



O LANRUG I PAPUA

Cyfres o erthyglau achlysurol gan Bryn Roberts yn adrodd hanes ei fywyd, ei deulu a'i waith yn Papua.

Pam, meddech chwi y daethom yma'n y lle cyntaf? Antur hwyrach, ond llwyaidd go dda o ffisig Mrs Thatcher hefyd. Mae llawer yma, fel ninnau, wedi dianc o ddiweithdra ac o berygl uniongyrchol y ras arfau niwcLEAR. Gwell gennym fyw mewn pentref sydd braidd yn rhy boeth, gyda gwaith sy'n achosi hedfan i fannau anghysbel ac anodd eu cyrraedd, gydag ambell i gynnwrf yn y dddear a dioddef ambell i cyclone yn chwilio am rywle go dwt i'w ddinistrio.

Un o wledydd y Trydydd Byd yw Papua New Guinea, ac y mae cymdeithasau'r wlad wedi hen arfer ag argyfyngau'r Trydydd Byd - diffyg adnoddau i'w datblygu, dim digon o ysgolion i ddarparu'r bobl gogyfer â bywyd gwahanol, dim digon o ysbytai i gadw'r bobl yn iach, ddiffyg ffyrdd i ddatblygu marchnadoedd newydd a mwy o waith, ac ar ben hyn, ofergoedd yn rhemp. Yn wyneb i gyd, beth tybed mae'r Byd Gorllewinol yn ei wneud?

Atgoffwch eich hunain o ddigwyddiadau'r wythnosau diwethaf. Gwastraffu bywydau, adnoddau ac arian yn y Falklands - yn union fel pobl Oes y Cerrig yn taflu arfau at ei gilydd. Creu ofn ynglŷn â bwriadau gwledydd y Llen Haearn. Oes, mae rhywbeth bach yn poeni pawb! Beth tybed, sy'n poeni pobl Llanrug a phobl Papua? Digon, mae'n siŵr, o bethau bach a phethau mawr. Hwyrach fod modd eu datrys, ac efallai mai yn y ddau le y mae'r ateb i'w ganfod - y cyfle i wella ein bywydau. Ond a ydym yn cael y siawns?

Bore Sul yw hi yma, ac mae Gerald Hindley o Lanidloes wedi galw am sgwrs. Mae John Williams o Feddgelert yn byw i lawr y ffordd: arolygwr ydi o. Ar yr ochr arall i'r ffordd mae Emrys Jones o Flaenau Ffestiniog yn byw. Mae'n paratoi cwricwlwm ymarfer corff ar gyfer ysgolion y wlad. Yn Rabaul, cyfarfûm â Norman Jones o gyffiniau Penygroes a Llanllyfni. Mae Cymro rownd pob congl yma, a byddaf yn siŵr o ddweud gair amdanynt o dro i dro.

Mae'r map yn dangos y gwahanol drefi a phentrefi lle bûm yn ymweld â hwy. Ymddiheuraf i Mr Len Parry, Cwm-y-glo am anfon map mor ddifrifol!

Mae Mendi, Mt Hagen a Goroka yn eithaf tebyg i'w gilydd - tua 3000m yn y mynyddoedd uchaf. Mae bywyd pobl y cylchoedd hyn yn hynod ddiddorol ac amrywiol. Yma, mae llysiau, coffi ac amryw o blanhigion eraill yn tyfu'n anarferol o dda. Yma hefyd mae daearynfâu yn

weddol gyffredin a chaiff y pentrefi eu hysgwyd yn achlysurol.

Mae Madang a Lae ar lan y môr ar ochr ogleddol (rhan New Guinea) y brif ynys. Dau bentref yn torheulo'n braf mewn 'technicolour'. Hawdd dychmygu'r pentrefi hyn fel mannau glanio i fôr-ladron mewn ffilm go ramantus - ond mae perygl yma hefyd oddi wrth daearynfâu.

Mae Rabaul wedi ei leoli o'r tu mewn i fynydd tanllyd, sydd â'i fotwm bol o dan yr harbwr. Tua mil a hanner o flynyddoedd yn ôl, diflannodd mynydd mawr i grombil poeth y dddear gan adael i'r môr lifo i mewn i'r hyn sy'n harbwr Rabaul erbyn hyn. Cred rhai na fydd y pentref hwn yn bod mewn ugain mlynedd oherwydd mae arwyddion fod y mynydd yn paratoi i ailffrwydro.

Mae pentrefi Gogledd Solomon yn anhygoel o brydferth a rhamantus: digon tebyg i fyw ar 'Fantasy Island'! Yn anffodus mae ambell i cyclone yn aflonyddu ar fywyd yno.

Port Moresby yw'r brifddinas, ar draethau deheuol y brif ynys (rhan Papua), a threfi eraill yw Bereina a Kerema - ond mwy am y rhain y tro nesaf.

ARDDANGOSFA YN LLANBERIS

Trefnwyd cystadleuaeth i ysgolion Gwynedd i goffáu saith ganmlwyddiant marwolaeth Llywelyn ap Gruffydd ac arddangosir gwaith goreuon y gystadleuaeth hon. Agorwyd yr arddangosfa yn Oriel Eryri, Llanberis, ddydd Llun, 21 Mehefin, 1982 am 5 o'r gloch. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Haydn Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Adloniant, Mwynderau a Diwylliant Cyngor Sir Gwynedd a chyflwynwyd y gwobrau i'r ysgolion gan Mrs Eluned Ellis Jones.

Gyda chymorth yr Amgueddfa Genedlaethol manteisir ar y cyfleusterau ardderchog yn Oriel Eryri am dair wythnos gyntaf yr arddangosfa, a bydd yn mynd ar daith ledled Gwynedd ac yn ymweld â llyfrgelloedd yn ystod y chwe mis sy'n dilyn.

GWASANAETH NEWYDD

yng nghylch Eco'r Wyddfa
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674
am fwy o fanylion




MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans



CLWB MERLOD GWYNEDD



Cynhaliodd Clwb Merlod Gwynedd wersyll yng ngwersyll carafannau y 'Snowdon View', Brynrefail am bedwar diwrnod yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Bu deunaw o blant yn cael gwersi marchogaeth a thrin ceffylau. Roedd tri thîm yno, sef tîm Môn, tîm Arfon a thîm o Arfon a Dwyfor. Rhoddwyd marciau bob dydd i'r plant am lanhau'r ceffylau, glanhau gêr y ceffylau, glanhau'r carafannau ac am eu gwisg eu hunain. Buont yn rhwbio a sgleinio'n ddyddiol - cymaint felly nes i ddau o dîm Arfon

fynd drwy dun o bolish sgidiau rhyngddynt! A'r tîm llwyddiannus ar ddiwedd y gwersyll oedd tîm Arfon, sydd i gyd yn byw ym mro'r ECO. O'r chwith i'r dde yn y llun mae Bronwen Lewis, Llanrug; Ian Jones, Penisarwaun; Kirsty McCann, Ceunant; Anna Wood, Tan-y-Coed; Dafydd Jones ac Olwen Jones, y ddau o Lanrug. Yn cynorthwyo'r athrawon i roi'r gwersi yr oedd dwy o enethod profiadol o'r Clwb Merlod sef Janet Pritchard, Llanrug ac Andrea Lowe o Fachwen, Dinorwig.

DIPYN O WAHANIAETH



Dyma lun sy'n peri i bawb ohonom, ac yn enwedig felly y modurwyr, aros ac ystyried. Petrol am 2/1½ y galwyn! Be di hynny, meddai'r to ifanc. Wel, mewn termau cyfoes mae'n golygu tuag unarddeg ceiniog, sef llai na phris papur dyddiol. Rhag ofn i chi ddod allan yn eich cannoedd i chwilio am y garej hael yma gwell pe bawn yn dweud wrthyfch mai hen bwmp petrol a roddodd ei olaf dro tua 1947 sydd yn y llun. Yn 1945 roedd petrol yn 1/11½ (9½ ceiniog, heddiw) y galwyn; 3/1 (15½ ceiniog heddiw) oedd y pris. Mae pris galwyn o betrol ar bympiau modern heddiw yn agos at £1.80 - sef codiad o 1764.7% ers 1946! Diolch i Dilwyn Jones, Garej Groeslon Marc, Llanrug am y wybodaeth a'i ddiddordeb ac am gael tynnu llun yr hen bwmp petrol.

DEINIOLEN

SEINDORF - Wele restr enillwyr y Clwb 200 am fis Mehefin:

1. rhif 42 (£25) Colin Edwards, Cyngor Sir Gwynedd. 2. rhif 4 (£15) John Williams, Vaynol Terrace. 3. rhif 76 (£5) Mrs M. Jones, Swyddfa'r Post, Bethel.

SIOE GOGLEDD CYMRU - Daeth llwyddiant i ran Robert Gwilym Rowlands, 12 Pentre Helen yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru. Yn y gystadleuaeth goginio cafodd y cyntaf am wneud teisen fedyddio, y cyntaf am wneud gateaux, y cyntaf am wneud eclairs siocled, a'r ail am wneud teisen 'novelty' sef 'dol Crinole'. Enillodd gwpan Cymdeithas Amaethyddol Gogledd Cymru am 1982 hefyd.

Wythnos Carnifal Deiniolen Gorff. 3-10fed

Dydd Sadwrn Gorff 2. Gemau 5 bob ochr i benderfynu'r timau terfynol.

Nos Sul. Cyngerdd dan ofal y Seindorf gyda 'Hogia'r Garnedd', Bethesda a grŵp ieuengaf y Seindorf, yn Festri Ebeneser am 8 o'r gloch.

Nos Lun. Gemau terfynol 5 bob ochr yn y Cae Chwarae am 6.30 o'r gloch.

Nos Fawrth. Disgo agored ar iard yr Ysgol Feithrin am 6.30 o'r gloch. Mynediad 25 ceiniog.

Nos Fercher. Cyngerdd a Choronîr Frenhines yn Festri Ebeneser am 7 o'r gloch.

Nos Iau. Mabolgampau yn y Cae Chwarae am 6.30 o'r gloch.

Nos Wener. Ffilmiau i blant Ysgol Gwaun Gynfi yn yr ysgol am 6.30 o'r gloch. Bingo i'r oedolion yn neuadd yr Ysgol am 7.30 o'r gloch.

Dydd Sadwrn. Y Carnifal i gychwyn o Eglwys Llandinorwig am 1.30 o'r gloch. I ddechrau yn y cae am 2 o'r gloch gan Gari Williams (BBC)

FI

Fi yw'r tecaf o'r pethau mor gain
Fel gwyddid yn plethu o amgylch y drain;
Dy bersawr fel arogl y grug ar y ffridd,
Fel blodau y gwanwyn yn deffro o'r pridd.

Fi yw y blagur sy'n blodeuo mor hardd,
Fel rhosyn sy'n gwrido, yng nghanol yr ardd

Dy lygaid sy'n fywiog, teimladwy a llaith
Syllais ar dy degwch, wel do, lawer gwaith.

A gweddïaf y caf i weled rhyw ddydd
Dy ennill drosodd, ymddiried yn fy ffydd
Fi yw fy eilun, a gwrthrych fy serch,
Fi sy'n fy nghalon, i mi, ti yw y ferch.

John V. Morris,
Rhianfa,
Clwt-y-Bont,
Deiniolen.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Clinig ddydd Mawrth Mehefin 8. Treuliwyd prynhawn hynod o ddifyr yng nghwmni Mrs Mary Griffith, 57 Pentre Helen, oedd wedi paratoi cwis ar 'addysg gyffredinol'. Yn gofalu am y marciau oedd Mrs Miriam Lewis. Estynnwyd croeso cynnes yn ôl i'n plith i Mrs M. Jones 4 Pentre Helen oedd wedi bod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Rhoddwyd y te gan lywydd y clwb sef Mrs Marren. Enillwyd y raffl gan Mrs Ruth Williams 19 Hafod Oleu.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Lun, Mai 17 yn Ysgol Gwaun Gynfi dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Y wraig wadd oedd Miss Catherine Williams, Y Coleg Normal, Bangor. Treuliwyd noson ddifyr yn ei chwmmi yn gwylio ffilm o Batagonia ar ôl ei chlywed yn rhoi sgwrs am y wlad. Estynnwyd croeso hefyd i Mrs

Eirwyn Morgan, Bangor a oedd wedi dod gyda Miss Williams. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Marian Wyn Williams, Mrs Beryl Hughes, Mrs Jane Eirlys Williams a Mrs Miriam Lewis. Diolchwyd i Miss Williams gan Mrs Megan Morris, Dinorwig a Mrs Williams 2 Bwthyn. Enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mrs Medwen Griffith) gan Mrs H. Moses Jones 10 Maes Gwylfa. Bydd y trip brynhawn Sadwrn Gorffennaf 24. Trefnir y trip gan Mrs Gwen Hughes a Mrs Medwen Griffith.

CYMDEITHAS LENYDDOL - Mehefin 12 aeth aelodau Cymdeithas Lenyddol Undebol Deiniolen a chyfeillion eraill o'r pentref am wibdaith i Aberwyth a dod yn ôl dros Bumlumon ac i Langollen. Cafwyd diwrnod arbennig o braf. Trefnwyd y wibdaith gan y llywydd, Mrs Jane Jones, 3 Stryd Newydd. Mwynhawyd y cyfan gan bawb a'r tywydd wrth fodd pawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Nos Lun Mehefin 7 cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni Miss Bradley o Lanfairfechan gyda'i mam yn ei chynorthwyo i ddangos sleidiau o'r India. Croesawyd hwy gan y llywyddes, Mrs Eirlys Williams. Bu Miss Bradley yn gweithio fel fferylllydd mewn ysbyty Gristnogol yn yr India. Soniodd am ei gwaith a'r cyferbyniad oedd rhwng adeilad fel y Taj Mahal a'r cartrefi tlawd oedd gan y trigolion. Hefyd roedd Miss Bradley wedi ei gwisgo mewn gwisg Indiaidd oedd yn hynod ddeniadol, a gwaith llaw yr Indiaid arni. Roedd ganddi hefyd amryw o nwyddau i'w dangos, y cyfan wedi eu gwneud yn India. Cafwyd tamaid i brofi o'r bwyd hefyd. Noson ddiddorol dros ben. Diolchwyd iddynt gan Miss Moller.

Cafwyd adroddiad cryno iawn gan Mrs Cemlyn Williams ar ei hymwelid â Llundain i'r Cyfarfod Blynnyddol. Diolchwyd i Mrs Williams am gynrychioli'r gangen ac am ei hadroddiad gan Mrs Williams, 2 Bwthyn. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Eirlys Lloyd Jones a Miss Kathleen Jones. Enillydd y Raffl oedd Miss Beti Williams Tai Gweledfa. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 28 o Fehefin, pryd y cawn sgwrs ac arddangosfa o blanhigion tŷ.

Y WESLEAID - Nos Lun, Mehefin 20 cynhaliwyd Cymanfa Ganu Cylchdaith Arfon yng Nghapel Bethel, Llanfairfechan. Yr arweinydd oedd Mr T. Gwyn Jones, Llanfairfechan a'r organydd oedd Mr Owen Williams, Penmaenmawr. Cafwyd canu da iawn a noson fendithiol.

APÊL 1982 - Fel rhan o'u hymdrechion tuag at Apêl 1982 cynhaliodd chwiorydd Disgwylfa swper ysgafn ynghyd ag adloniant nos Wener Mehefin 11 yn Ysgol Gwaun Gynfi. Wedi'r swper diddanwyd hwy gan Ifan Bryn Roberts, Dinorwig, Annette Bryn, Tom Morgan, Delyth Fôn Williams a Nia Davies. Diolchir i bawb a helpodd ymhob rhyw fodd tuag at wneud y noson yn llwyddiant, a chreu elw o £50 tuag at yr Apêl.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU - Adran Deiniolen a'r Cylch. Cynhelir Barbeci a Mabolgampau ym Mhenisarwaun, nos Wener, Gorffennaf 16 - y mabolgampau i ddechrau am 6 o'r gloch; y barbeci i ddechrau am 7.30 o'r gloch. Mynediad 15c (plant); 30c (oedolion).

CERDDOROL - Llongyfarchiadau i Helen Mair Jones 14, Rhos Marian, ar ei llwyddiant, gydag anrhydedd, yn yr Arholiad Ysgrifenedig, Gradd 3, mewn cerddoriaeth dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd adroddiad o'r gynhadledd genedlaethol yn Llundain gan Mrs M. Griffiths, Ael y Bryn. Darparwyd y te gan Rhian Jones a Sheila Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Jinnie Roberts ac fe'i enillwyd gan Mrs M. Griffiths.

CLWB Y MAMAU - Eto yn Nhŷ Glas ar Fehefin 10, daeth amryw a aelodau ynghyd i ddiddori eu hunain drwy chwarae'r gêm 'Tri Gair Bach'. Darparwyd y te gan Moira Ellis a Jackie Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Helen Jones a Moira Ellis a fu'n lwcus o'i ennill.

CLWB PEDWARUGAIN - Wele enillwyr mis Mai:

Mai 7. 1 Norma Green, 2 Audrey Roberts, 3 Carol Houston.

Mai 14. 1 Willburt Williams, 2 Aled Green, 3 Gary Williams.

Mai 21. 1 Jennie Hughes, 2, Shirley Roberts, Pat Mowl.

Mai 28. 1 Phyllis Jones 2 Elenor Williams 3 Audrey Hasson.

LLONGYFARCHIADAU i Anita Jones, Cae Coch, ar dderbyn ei gradd gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd - newyddion amserol iawn i ddatlu ei phen blwydd yn un ar hugain ar Fehefin 26 - llongyfarchion ar y ddau achlysur a dymuniadau da at y dyfodol.

DIOLCHIADAU - Dymuna Janet Jones, 5 Tremaelion ddiolch i bawb

am bob caredigrwydd a dymuniadau da a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da yw gweld ei bod wedi llwyr wella.

NEWYDDION TRIST o Canada am y diweddar Robert Mathews, a fu farw ar Ebrill 20. Yn enedigol o Llain Hir, Brynrefail bu yn y Fyddin yn y rhyfel mawr ac ymfudodd i Canada yn fuan wedyn. Bu wrth ei waith yn ysbyty Alberta, Ponoka o 1927 hyd ei ymddeoliad yn 1964. Nid syn deall ei fod yn bysgotwr brwd ac wedi cadw'r diddordeb ers ei blentynod ar Lyn Padarn ac afon Seiont. Yr oedd hefyd yn bêl-droediwr o fri. Yr oedd yn 83 mlwydd oed, yn frawd i'r diweddar Mary Maud "Marino" a Nellie Holland, Dôl Elidir, Llanberis. Daeth y newyddion hyn i law gan nai Mr Robert Mathews, sef Dennis Milton Jones, 11 Tremaelion ac mae'n siŵr y bydd Mr Jones yn mynegi ein cydymdeilad at y weddw a'r teulu yng Nghanada o'r hen-wlad.

DYMUNIADAU DA i Mrs M. Williams, Dinorwig House, ar ei thaith i Canada. Bydd yn treulio mis yno cyn ymweld â theulu, ac edrychwn ymlaen am newyddion pan ddaw adre'n ôl.

CERDDOROL - Llongyfarchiadau i Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig, a Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian, ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Ysgrifenedig, Gradd 4, mewn cerddoriaeth, dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

HWYLFORDIO - Y CHWIW DDIWEDDARAF



Mewn llai na blwyddyn ers sefydlu Clwb Hwylfordio Llanberis mae'r cynnydd ym mhoblogrwydd hwylfordio yn galonogol yn ôl Mr Laurie Griffith, sefydlwr y clwb. Er mai prif amcan y Clwb yw i ddatblygu diddordeb lleol, yn arbennig ymysg yr ifanc, gobeithia Mr Griffith y gall diwydiant bychan mân-werthu ddeillio ohono os datblygir y diddordeb.

Ar hyn o bryd, cynigir hyfforddiant yn cynnwys defnydd o ford, siwt wlyb, offer rhag suddo a chwch achub am dair punt yr awr. Cynigir gostyngiad o bunt i blant a'r unig beth sy'n angenrheidiol yw bod yn nofiwr da. Fel y gallwch dybio rhaid bod yn barod i ddisgyn i'r llyn

laweroedd o weithiau cyn dod yn brofiadol.

Uchafbwynt y flwyddyn i'r clwb yma oedd eu regatta a gynhaliwyd ar Lyn Llanberis ddydd Sadwrn 26 fel rhan o weithgareddau carnifal Llanberis. Roedd dosbarth arbennig ar gyfer y rhai ifanc a chafwyd bron i ddeugain o gystadleuwyr. Cafwyd diwrnod llwyddiannus gyda'r dorf oedd yno yn cael eu diddori gan Seindorf Llanberis. Yn dilyn y llwyddiant bwriedir ceisio trefnu hwn yn weithgaredd blynnyddol.

Gyda dros chwarter miliwn o hwylfordiwr pwy a ŵyr na ddaw Llanberis yn ganolfan hwylfordio mor enwog ag yw fel canolfan ddringo.



DRAENOG

Clywed gan chwaer ddraenoges iddi gael sioc yn ddiweddar pan aeth hi i Ysbyty'r Chwarel yn Llanbêr i chwilio am bamffledi yn ymwneud â Pharc Gwledig Padarn. Yn gyntaf Saesnes uniaith oedd yn gweithio yno. Dynes glên iawn, ond prin bod ei gwybodaeth hi o'r hen chwarel yn cymharu â gwybodaeth yr hogia lleol

oedd yn trio am y swydd yr un pryd â hi. Cofiwch chi! - roedd ail sioc yn ei disgwyl hi. Pamffledi uniaith Saesneg oedd y rhai oedd ar gael i'r cyhoedd yn y Swyddfa yn yr hen ysbyty. Pan ofynnodd fy ffrind am rai Cymraeg yr ateb a gafodd oedd "I think there are some on the shelf in the stores". Sut mae'r hen ddywediad 'na yn mynd am halen ar friw?

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Nos Iau Mai 6 eleni bŵm mewn Noson Goffi yng nghartref Mrs Hughes Jones, Sŵn y Gwynt, Llanrug. Daeth llond y tŷ o bobol. Derbyniwyd nifer o sieciau ac anrhegion. Yr oedd elw'r noson dros hanner cant o bunnau, at Gronfa 'Te Bach' y Merched yng Nghapel Mawr, Llanrug.

Tra'r sgwrsio cofiodd Mrs Hughes Jones yn sydyn fod ganddi nifer o erthyglau wedi eu torri allan o bapurau newyddion a'u cadw'n ofalus gan ei mam, flynyddau'n ôl. Cefais fenthy y papurau a threuliai oriau wedi mynd arufref yn chwila drwyddynt am bethau i 'Eco'r Wyddfa'. Mae'r hen air yn ddigon gwir "Cadw-mi-gei".

Merch y diweddar Mr a Mrs Richard Williams Jones, Penyrsedd, Nantlle ydyw Mrs Jones. Lladdwyd ei thad yn Chwarel Penyrsedd Nantlle yn 1910 ac yntau ond deugain oed. Dydd Gwener o flaen Gŵyl y Diolchgarwch y digwyddodd hyn. Y mae eu bedd ym mynwent Macpela Penygroes. Y mae'r enghlyn canlynol wedi ei dorri ar y garreg fedd:

Iôr a biau ro'i bywyd, cu anadl
Ac einioes ac iechyd:
Hawl a fedd i alw o fydd
Man y mynno, mewn munud.

Gwilym Callestr

Diolch yn fawr iawn i Mrs Hughes Jones. Ymysg y papurau cefais y canlynol:

Bardd Sceifiog

(O'r Brython) "Clywaf eich bod chwi Eglwyswyr Ysceifiog ar bwys Treffynnon yn mynd i atgyweirio Eglwys St. Mair a'i rhoi mewn trefn. Da chwi rhoch y fynwent mewn trefn yr un pryd. Canys ynddi hi y mae llwch William Edwards (Gwilym Callestr) neu Wil Ysceifiog fel yr hoff elwid ef. Fuasai fawr i un o'ch plwyfolion cefnog godi carreg ar ei fedd, ac arni'r englynion canlynol o waith Wil i ddangos mor llyfn a phert y medrai creadur mor anystyriol blethu cynghaneddion."

Heddyw

Heddyw yw'r dydd gwahanol, - mynd heibio

Mae'n debyg i wennol:
Ystyriwn yn dosturiol,
Ni ddaw i neb ddod i ôl.

(G.C.)

Sobri

Sobraf, ni fyddaf feddw, - mae'r achos
Mor uchel yn galw:
Yfaf ddŵr yn lle cwrw,
A mynnaf laeth, mi wnafl iŵ.

(G.C.)

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cath

Cath fraith, cath ddifaith, cath ddu, - cath lygod

Cath Loeger a Chymru:
Cath, Cath, Cath, ei bath ni bu,
Cath y fall, - cei wyth felly.

(G.C.)

Alafon

Yn gennad hedd gwirioneddol - y bu
Llenor, a bardd swynol:
A braidd fod neb ar ei ôl
Ar y ddaear mor dduwiol.

(Dewi Orwig, Crawia)

Y Porthmon

Y diweddar John Roberts, Glasgoed, oedd y
porthmon, sef tad Mr Huw Roberts, Pengaer,
Penisrwaun.

Tramwyr wlad ar bob adeg - wna efe
A'i 'fike' fel pe'n hedeg:
Prynwr a gwerthwr gwartheg
Mwya ein tir, porthmon teg.

(Dewi Orwig)

Cân y Môr

Meilir Wyn, Llanberis anfonodd yr
hen gân boblogaidd hon i Olygydd y
Brython. Enw'r awdur ydyw
Rowland E. Roberts, Bedwargoed,
Llanberis, gynt o'r Dorlan Goch,
Clwt y Bont. Bu llawer o hwyl wrth ei
chanu erstalwm a'i hadrodd.

Y mae saith o benillion i'r hen gân.

Anferthol faith ei wyneb
Yw y môr, yw y môr,
Rhyw ail i dragwyddoldeb
Yw y môr:
Mae yn ei faith ddyfneroedd
Gyflawnder o oludoedd
Ac aur ers amryw oesoedd
Yn y môr, yn y môr.
Ariandy Duw y lluoedd
Yw y môr.

Pa le mae Cantre'r Gwaelod?
Yn y môr, yn y môr,
A'i gwyr yn pesgi'r pysgod
Yn y môr:
Ei heirdd balasau mawrion
Feddiennir gan bysg brithion,
Heb rent nac un gofynion
Yn y môr, yn y môr,
Ni thalant Dreth y Tlodion
Yn y môr.

Hen Gymeriadau Hynod

Yr oedd John a William Jerry yn
gweithio yn y Dyffryn yn Chwarel
Llanberis ar un adeg. Dau frawd pur
hynod eu dull o siarad a gweithio. Yr
oedd eu tad yn stiward mewn
chwardd fechan yn sir Feirionnydd,
mi dybiaf, a chlywais William yn
dweud rhyw dro fel hyn, "Biti oedd i
'nhad rhyw dynta wedi cael lle yn
stiward am ei oes."

Diwrnod gosod byddai'r ddau yn
planio sut i gymryd y fargen am y mis

wedyn. "Mi ofynnwn ni iddo am
geiniog yn rhagor ym mhris y
dunnell," ebe William wrth John.
"Ia, mi wnawn ein gorau i'w chael
hi." "Oleir," ebe'r ddau tan sythu.

Daeth Owen Jones, y gosodwr,
gan ofyn sut yr oeddynt, a beth oedd
y rhagolygon at y dyfodol. Atebodd
Williams mai digon drwg oedd y
fargen, ac mai anodd iawn oedd cael
menyn ar ei fara, a'i fod ef a'i frawd
wedi cytuno i ofyn am geiniog yn
rhagor yn y dunnell. Ar hyn trodd
John yn sydyn ar William gan ofyn,
"Beth sydd arnat ti dywed, yn cyboli
hefo dy geiniog o gyd, pam na adewi
di lonydd i'r hodi fargen a fynno."

Chwarddodd Owen Jones. Cafodd y
ddau frawd geiniog o godiad!
(Allan o Golofn Glan Rhyddallt yn Yr
Herald Gymraeg)

ieithoedd Dic Aberdaron

Ar y 4ydd o Ebrill 1837 rhoddwyd
prawf ar Dic Aberdaron, sef Richard
Robert Jones i ddarganfod pa
ieithoedd a fedrai Dic siarad. Y
Parch Thomas Feiblaidd Gartrefol a
Thramor oedd yr arholwr. Yr oedd
ganddo lyfr yn cynnwys 200 o

ieithoedd. Darllenodd Dic ac
enwodd 35 o'r ieithoedd yn rhwydd.
Dyma'r rhestr. Heb os, Dic oedd
ieithydd mwya'r oes.

1. Hebraeg, 2. Ysbaeneg, 3. Ethiopiaeg, 4.
Ffrangcaeg, 5. Voidoeaeg, 6.
Piedmontaeg, 7. Cymraeg, 8. Saesonaeg,
9. Gwyddelaeg, 10. Almaenaeg, 11.
Syriaeg, 12. Georgiaeg, 13. Rwssiaeg
(Ogleddol), 14. Rwssiaeg (Ddeheuol), 15.
Syria - Galdeae, 16. Syria - Periwae, 17.
Armaenaeg, 18. Armoric - Ethiopiaeg, 19.
Arabaeg, 20. Coptaeg, 21. Groeg Henafol,
22. Groeg Ddiweddar, 23. Abanichae, 24.
Portuguaeg, 25. Persiaeg, 26. Isellmynaeg,
27. Eidalaeg, 28. Ffrainc - Frythonaeg, 29.
Dutch-Holandaeg, 30. Swedaeg, 31.
Manawaeg, 32. Ysgotaeg, 33. Chinaeg,
34. Lladinaeg, 35. Daenaeg. (Dywedir
mai'r Hebraeg oedd yr orau ganddo.)

Cefais yr uchod mewn llyfr bychan
(pris chwe cheiniog) Hanes Bywyd
Richard Robert Jones (Dic
Aberdaron). Y cyhoeddwy'r oedd H.
Humphreys, Castle Square,
Caernarfon.

Dalier Sylw

Os bydd gan rhywun wybodaeth
ychwanegol neu os bydd angen
cywiro anfonwch air i'r cyfeiriad
canlynol: Mrs Mary Lloyd Williams,
Llys Awen, Llanrug, Gwynedd
(Caernarfon 4474). Diolch i bawb.



Llun o Dic Aberdaron - wedi ei wneud gan Mr Gwyndaf Owen, Ferndale,
Llanrug.

DRAENOG



Llongyfarchiadau i'r bridwr
ceffylau o Lanrug sydd wedi
dyfeisio sustem newydd o
gadw'i geffyl yn fodlon - ei roi yn
y parlwr!

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Llanberis
870205

Sauna
Gwely Haul
Wacsio
Slender
tone

SAUNAMDANI
Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm
**STRYD FAWR
BETHESDA
600140**

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

TAITH OXFAM – Yn ystod y mis, aeth tua 80 o ddisgyblion yr ysgol ar daith nodedig Oxfam, i gerdded 16 milltir drwy goedwig Gwydir. Bu Mr a Mrs Plemming hefyd yn ddigon dewr i gerdded.

EISTEDDFOD YR URDD – Cafodd yr ysgol lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ym Mhwllheli ddechrau'r mis diwethaf. Daeth Gwyn Meirion Roberts yn gyntaf ar ganu'r trwmpe, a Rhian Owen hefyd yn gyntaf ar yr unawd merched 15-19 oed. Daeth y grŵp Gwlith yn ail gyda'r Gân Werin Fodern a Rhian Owen a Sian Gibson yn ail hefyd ar y ddeuawd 15-19 oed. Llongyfarchiadau mawr iddynt!

YMWELIAD Â CHOLEG Y SANTES FAIR –

Yn ystod y mis hefyd, ymwelodd rhai o'r chweched dosbarth â choleg y Santes Fair, Bangor, gyda Mrs Plemming. Cafwyd darlith a ffilmiau yno ar grefydd Islamaidd.

POB LWC – Ar ddiwedd y tymor mae 3 o athrawon yn gadael yr ysgol; sef Mrs Norsen Manning (pennaeth yr Adran Saesneg), Mrs Carolyn Curry (pennaeth yr Adran Ffrangeg) a Mr D. Merfyn Lloyd (athro Hanes). Pob lwc i'r tri yn y dyfodol, a diolch am eu gwasanaeth i'r ysgol.

CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION ARFON –

Roedd dros 60 o ddisgyblion o'r ysgol yn cystadlu yn y cyfarfod yma. Dyma enwau y rhai a wnaeth orau:

Michael Roberts (Cwm-y-Glo) 1af Pwysau (record newydd), 3ydd Disgen. **Michael Coombes** (Penisarwaun) 1af Naid Driflyg, 1af dros y Clwydi. **Dafydd Jones** (Llanrug) 1af Naid Uchel. **David Addis**

(Llanberis) 1af Naid Uchel. **Neil Roberts** (Cwm-y-glo) 1af Picell (record newydd). **Mathew Antoine** (Llanberis) 1af Disgen. **Melaine Sellers** (Llanberis) 1af 100m, 2il 200m. **Margaret Roberts** (Ceunant) 1af 200m, 1af 400m, 3ydd Picell. **Delyth Williams** (Deiniolen) 2il 1500m. **Petula Williams** (Llanberis) 2il naid uchel. **Colin Sayner** (Llanberis) 2il Picell. **Matthew Ward** (Llanrug) 2il 1500m, 3ydd 800m. **Nia Jones** (Llanberis) 2il Picell. **Patrick McGuinness** (Llanrug) 3ydd Picell. **Sharon Owen** (Llanrug) 3ydd 100m. **Haydn Maxwell** (Deiniolen) 3ydd Picell. **Steven Owen** (Cwm-y-glo) 3ydd Pwysau. **Meirwen Williams** (Penisarwaun) 3ydd Pwysau.

CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION GWYNEDD –

Dewiswyd pawb a ddaeth yn gyntaf ac yn ail yng nghyfarfod Arfon i gystadlu yn erbyn Môn a Meirion. Yn anffodus oherwydd y tywydd gwlyb gohiriwyd y cystadlaethau clwydi, picell a naid uchel. Fe enillodd **Michael Roberts** (Cwm-y-glo) y gystadleuaeth taflu'r pwysau ac fe ddaeth **Mathew Antoine** o Lanberis yn gyntaf yn y ddisgen. Fe fydd y ddau yn awr yn cynrychioli Gwynedd ym mhencampwriaeth Cymru yn Kelsterton ar y 3ydd o Orffennaf.

CRICED

TLWS CRICED YSGOLION GWYNEDD (DAN 14)

YSGOL BRYNREFAIL 136 am 9 wiced (mewn 20 pelawd). **David Crowe** 44 heb fod allan. **Michael Roberts** 24

YSGOL DYFFRYN NANTLLE 67 am 9 wiced (mewn 20 pelawd)

Bydd yr ysgol yn cyfarfod ysgol Amlwch neu Ysgol Friars yn y rownd nesaf.

Blwyddyn 1af yn erbyn yr 2il flwyddyn

Blwyddyn 2 108 am 8 wiced (mewn 20 pelawd). **Alwyn Williams** (Bethel) 30. **Mark Parry** (Llanberis) 23

Blwyddyn 1af 80 i gyd allan. **Ian Evans** (Llanberis) 20 **Stuart**

Williams (Llanrug) 16
Blwyddyn 4 yn erbyn blwyddyn 5
Blwyddyn 4 145 am 4 wiced (mewn 20 pelawd). **Malcom Allen** (Deiniolen) 59. **Peter Sharpe** (Bethel) 36.
Blwyddyn 3 63 am 8 wiced (mewn 20 pelawd).

DINORWIG

DAMWAIN – Torrodd Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd ei braich tra'n dilyn ei goruchwyllion tua'r cartref. Cydymdeimlir â hi yn ei hanffawd. Da deall ei bod yn gwella.

YN YR YSBYTY – Aethpwyd â Miss Myra Foulkes, Dublin House i Ysbyty Eryri, Caernarfon am driniaeth feddygol. Anfonir ein cofion ati a brysied wella.

CYFARFOD PREGETHU – Y Sulgwyn eleni bu cyfarfod pregethu blynyddol eglwys Sardis (B). Y gennad oedd y Parch J. Rice Rowlands, Caergybi. Cafwyd cynulliadau da a phregethu dymunol a da.

MARW – Mai 27, yn Ysbyty Druid, Llangefni, bu farw yn 85 oed Mrs Alice Parminter, priod Mr Henry Parminter, 25 Cae Gwyn, Caergybi. Cyn ei hymddeoliad flwyddyn yn ôl hi oedd postfeistres Dinorwig, lle gwasanaethodd am 45 mlynedd. Bu'r angladd ym mynwent Macpela, Deiniolen, wedi gwasanaeth yn Eglwys St. Fair, Dinorwig. Gwasanaethwyd yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer, y Parch Aled Edwards, a'r Parch Trefor Lewis, Deiniolen. Yr organyddes oedd Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian, Dinorwig.

Cydymdeimlir â Mr Parminter, ei fab Douglas a'i briod a'r wyrion, David a Susan, a'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth. Cydymdeimlir hefyd â Mr a Mrs Alun Phillips, 6 Maes Eilian, Dinorwig a'r cysylltiadau teuluol eraill ym marw

brawd Mr Phillips, y Canon Ivor Phillips BA, Rheithordy, Corwen.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG – Bydd trip y gymdeithas yn mynd i Langollen a Rhyl, ddydd Sadwrn Gorffennaf 3 eleni.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mr Henry Parminter, 25 Cae Gwyn, Caergybi (gynt o'r Llythyr, Dinorwig), ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ei brofedigaeth o golli ei briod. Bydd y rhoddion ariannol a dderbyniwyd yn cael eu trosglwyddo at waith cysuron y cleifion yn Ysbyty Druid, Môn.

EGLWYS ST. FAIR – Bu Gŵyl Bregethu Flynyddol Eglwys St Fair Sul Mehefin 20 eleni. Gwasanaethwyd ynddi gan y Ficer, y Parch Aled Edwards a'r Parch Clifford Smith Williams, Caernarfon. Mwynhawyd yr ŵyl yn fawr.

ANFONWN ein cofion at y rhai sy'n dioddef ac yn cwyno yn yr ardal.

DYMUNA Mrs Heulwen Morris, Cefn Coch, Deiniolen, ddiolch o galon i ardalwyr Dinorwig am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi tra'n aros gyda'i mam yn 8 Maes Eilian, Dinorwig, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Adran Deiniolen a'r Cylch. Cynhelir Barbeciw a Mabolgampau ym Mhenisarwaun, nos Wener, Gorffennaf 16 – y mabolgampau i ddechrau am 6 o'r gloch; y barbeciw i ddechrau am 7.30 o'r gloch. Mynediad 15c (plant); 30c (oedolion).


LLYTHYREN NEWYDD – CAR NEWYDD

METRO NEU TRIUMPH ACCLAIM

GAREJ MINFFORDDD

BETHEL (T.R. & S. EVANS) Ffôn: Y Felinheli 670451

YGORAU!



YR HEN FFORDD GYMREIG O HEL DIOD

Ceir llawer o ffigurau ac ystadegau y dyddiau hyn yn darlunio'r cynnydd ym mhroblem alcoholiaeth. Nid oes amheuaeth fod llawer mwy o bobl yn yfed alcohol a'r rhai hynny sy'n yfed, yn yfed mwy. Gallwn i gyd feddwl am y rhesymau sy'n cyfrif am hyn - lleihad yn nylanwad y capeli, mwy o hysbysebu, mwy o siopau yn gwerthu alcohol, a mwy o weithgarwch cymdeithasol yn troi o amgylch yfed. Mae rhai yn gweld hyn fel drygioni diamheuol ac eraill yn ei dderbyn heb sylweddoli'r peryglon.

Ers dyddiau Noa mae dyn wedi bod yn yfed alcohol - ac wedi meddwi arno. Yn y chweched ganrif canodd Aneurin am y 'glasfedd' a seliodd dynged ymladdwyr Catraeth, er eu doethineb, a gosododd Elis Wynne y tafarnwr yng nghwmni'r 'Mwrddwyr Gwlyb' i ferwi yn Uffern am iddo wneud diod i ladd ei gwsmeriaid. 'Dyw'n cymdeithas ni yn ddim gwahanol. Mynnwn ein pleserau ond gwadwn ein cyfrifoldeb. Eto yn ein hymwybyddiaeth yn ogystal â'n llenyddiaeth mae gennym greddau sylfaenol ynglŷn â'r defnydd o alcohol. Maent wedi eu himpio i'n cydwybod, bron mewn modd crefyddol, ac wedi eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Maent wedi lliwio ein hagwedd tuag at alcohol, tuag at y meddwyn, tuag at y dafarn, tuag at y 'ffordd Gymreig o fyw'.

Gan fod cymaint o newid wedi digwydd yn ystod y genhedlaeth ddiwethaf, diddorol fyddai gwybod a yw ein hagwedd tuag at alcohol wedi newid hefyd. Beth yw'r hen greddau ac a oes gennym greddau newydd amdano? Gyda'r poblogeiddio a'r soffisteigeddio sydd ar alcohol heddiw trwy gyfrwng pob cyfrwng tybed a yw'r hen agwedd Gymreig tuag ato wedi ei oddiweddyd gan agweddau Eingl- Americanaidd neu Ewropeaidd, fel yn achos llawer i beth arall? Diau fod rhai ymhlith y nifer sy'n canu'r hen alawon Cymreig yn y dafarn yn yfed gwin gyda'u pryd bwyd neu ambell i ferch hetan yn yfed Bacardi ac yn breuddwydio am heulwen y Bahamas!

Ond, yn fwy difrifol, chwerthin a wnawn am ben y meddwyn, yn gam neu'n gymwys ond beth am agwedd ein cyndadau? Hwyrach i'w crefydd hwythau liwio eu hymateb a pheri iddynt ei weld fel pechod anfaddeuol. "Peidiwch deud wrth y diaconiaid rhag i ni gael ein torri ma's", canai'r diedifeiriol. Ond gallai'n cyndadau, efallai nad yr un rhai, ganu am rinweddau alcohol fel diod i godi hwyl ac i wneud cwmni cyfeillion yn fwy difyr. Mae yfed yn cael ei gymeradwyo ond a yw meddwdod yn gymeradwy yn y traddodiad Cymreig - ac os felly pa lefel o feddwdod a beth am elfennau

fel yfed ar yr aelwyd, gwragedd yn yfed, rhinweddau meddyginiaethol alcohol ac yn y blaen. Rwy'n siwr fod gennym yn ein traddodiad ein hunain ganllawiau ar gyfer y ffordd briodol o ddefnyddio alcohol a rhybuddion hefyd yn erbyn y camddefnydd ohono, a'r rhain oll wedi eu llunio o brofiadau (chwerw a melys) cenedlaethau o'n blaen.

Gwelai rhai droedigaeth fel yr unig ffordd i wared un o afael alcohol - un o'r mudiadau sy'n gwneud fwyaf hefo'r meddwyn o hyd yw Byddin yr Iachawdwriaeth. Beth yn ein barn ni yw'r ffordd orau i ddod o afael y ddiod neu i wrthsefyll ei demtasiwn o'r cychwyn cyntaf? A roddwn ormod o ffydd mewn addysg? A oes modd i ni ddysgu o'n traddodiad yn y cyfeiriad hwn hefyd?

Buaswn yn falch iawn o dderbyn gwybodaeth neu gyfeiriadaeth am ein credoau traddodiadol am y defnydd o alcohol. Gallant fod ar ffurf diarhebion, hen benillion a dywediadau cefn gwlad, caneuon gwerin, englynion ac yn y blaen. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich gohebiaeth.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd rhai ffigurau yn cael eu cyhoeddi yn y papur hwn i'n hatgoffa o ddifrifoldeb y sefyllfa bresennol. Er y bydd eu darllen yn ddigalon, gyda gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus mae mwy o bobl yn ceisio cymorth, a da o beth yw hynny.

Cysylltwch ag

Owain Aneurin Owen

Cyfarwyddwr

Cyngor Clwyd a Gwynedd ar

Alcoholiaeth

Eryl Wen

Eryl Place

Llandudno

DYMA RAI FFEITHIAU:

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

1. Y cydnabyddir ac y cyfrifir yn swyddogol fod problem alcoholiaeth wedi cyrraedd lefel epidemig.
2. Bod tri chwarter miliwn o bobl yn Ynysoedd Prydain yn dioddef yn enbyd oherwydd eu bod yn yfed gormod o alcohol (cynnydd o bron i 40 y cant yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf)

3. Mae alcoholiaeth yn drydydd ar y rhestr o achosion marwolaeth, nesaf at afiechyd y galon a chanwr.
4. Y mae graddfa hunanladdiad ymhlith y rhai sy'n alcoholic oddeutu 76 gwaith yn fwy na'r raddfa ymhlith gweddill y boblogaeth.
5. Dangosodd un archwiliad bod 70 y cant o lofruddion wedi bod yn yfed alcohol yn ystod y pedair awr cyn cyflawni eu trosedd.
6. Mae alcohol yn gyffwr sy'n digalonni ac nid yn bywiogi.
7. Y mae prawf pendant bod perthynas agos rhwng goryfed alcohol a chyflawni troseddau, safon gwaith isel

ac afiechyd.

8. Er 1971 cynyddodd nifer yr achosion o feddwdod 23 y cant, achosion o yfed a gyrru 28 y cant, marwolaethau o cirrhosis yr iau 22 y cant a nifer y cleifion a dderbyniwyd i ysbytai yn dioddef o alcoholiaeth 51 y cant.
9. Cafwyd cyfanswm o 117,813 achos o feddwdod yn 1979 yng Nghymru a Lloegr.
10. Yn 1979 cafwyd 74,550 cyhuddiad ym ymwneud â gyrru car tra o dan ddylanwad alcohol.
11. Y mae gan un o bob 3 gyrrwr car a leddir fwy na'r lefel cyfreithlon o alcohol yn ei waed.

AR LWYBR NATUR

Gyda Leslie Larsen

Tegeirian (Orchid)

Yn 1821 argraffwyd llyfr yn dwyn yr enw *Tourist's Guide Through the County of Carnarvon*. Yr awdur oedd y Parch. P.B. Williams, rheithor Llanrug ar y pryd, ac yn ei lyfr cofrestrodd enwau amryw o flodau a dyfai yn y fro. Credaf mai John Roberts, meddyg ym Mangor a gasglodd y planhigion tra'n crwydro o gwmpas y Wyddfa. Un o'r planhigion hyn oedd tegeirian prin iawn yn tyfu yn Nghoed yr Allt Wen ar ochr Llanddeiniolen o Lyn Padarn.

Enw'r tegeirian yn Lladin yw *Cephalanthera longifolia*, ac yn Saesneg un wedi ei fathu sef *Long leaved Helleborine* ond am wn i nid oes enw Cymraeg arno ac felly cyfeiriai ato fel tegeirian yr Allt Wen.

Y mae tegeirian yr Allt Wen i'w gael yng Nghymru yn Chepstow yng Ngwent; i'r gogledd o Aberystwyth; ac yma yng Nghoed yr Allt Wen. Ym mis Mai eleni, pan oeddwn yn y coed yr oedd yn tyfu yno o hyd mewn dau safle, ond nid ydwyf yn gwybod pa mor ddiogel yw yma oherwydd yr oedd dafad neu ddwy yno'n pori ac nid yw defaid yn enwog am allu gwahaniaethu rhwng planhigion prin a rhai cyffredin.

Pan fyddaf yn crwydro yng Nghwm Idwal, Cwm glas, Clogwyn Du'r Arddu a chadarnleoedd eraill ein blodau mynyddig, peth cyffredin yw gweld dringwyr fel morgrug ar y clogwyni ac yn ddiarwybod iddynt y maent yn niweidio ac yn difa ein hetifeddiaeth ym myd y planhigion. Ychydig o flynyddoedd yn ôl yr oedd Brwynddail y Mynydd (*Lloydia*) yn tyfu mewn 12 o safleoedd yn Eryri ond erbyn hyn fe'i gwelir mewn 5 safle yn unig ac eleni yr oedd yn brin iawn ar Glogwyn Du'r Arddu.



Y mae'r perygl hwn yn peri gofid i mi a hoffwn weld rhyw gorff fel Bwrdd Gwarchodfa Natur neu Parc Cenedlaethol Eryri yn derbyn yr her yma ac ymdrechu i amddiffyn y blodau hyn rhag iddynt gael eu difa'n llwyr.

DRAENOG



Da iawn chi, y rhai fu'n gyfrifol am benodi athrawes Saesneg ei hiaith i ddysgu Ffrangeg yn Ysgol Brynrefail. Beth arall fedrai'r panel ei wneud a thri di-Gymraeg ar y rhestr fer? Ailhysbysebu, meddai rhai pobl wirion. Twt lol, edrychwch arni fel hyn, caiff eich plant y fantais o ddysgu trydedd iaith drwy gyfrwng eu hail iaith. Cyfrwch eich bendithion hogia bach.

LLEUFER O. ac M. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

'DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm

AR GAU
SUL,
MERCHER.

CYMDEITHAS DIOGELU HEN BEIRIANNAU
AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU

DIWRNOD
DYRNU

HEN DTRACTORS CREFFTAU GWLEDIG
INJANS OEL A LLAWER MWY

Dydd Sadwrn, Awst 14eg,
1982 am 1.00 o'r gloch

COLEG GLYNLLIFON

PENISARWAUN

YMWELIADAU – Yn ddiweddar bu plant rhwng 5 a 9 oed o'r ysgol yn cael eu diddanni gan y Doctor Dewin yn Theatr Seilo. Ymweld â chaer Rufeinig Segontium wnaeth plant y dosbarth hynaf, fel rhan o'u gwaith ar y Rhufeiniaid.

GLAN-LLYN – Treuliodd wyth o'r plant benwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn, lle buont yn nofio, canwio, rhwyfo a hwylio. Braf oedd cael mynd yno yr amser hyn o'r flwyddyn.

THEATR – Daeth Theatr Bara Caws ar ymweliad a chafodd plant Safon 3 a 4 gyfle i wyluo eu rhaglen 'Diwrnod i'r Brenin', yn ymwneud â bywyd Llywelyn ein Llyw Olaf.

Erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos mae'n debyg y bydd dwy wibdaith wedi eu mwynhau – y babanod ar reilffordd Llyn Padarn ac ymweld â Beddgelert, a'r plant iau wedi bod yng nghystyll Cymreig Dolbadarn a Dolwyddelan cyn gwario'u pres ym Mharc Eirias.

CLWB Y MERCHED – Cafwyd cyfarfod nos Fawrth Mai 25, y wraig wadd oedd Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo, ac fe roddodd ffilm ac ychydig o hanes ei gwaith. Mae Mrs Jones yn gweithio'n wirfoddol i Dr Barnardo. Diolchodd Mrs P. Williams iddi. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Margaret Williams, Carrog, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Williams a Mrs Porter. Enillodd Mrs P. Williams y raffl.

CLWB YR HEULWEN – Bu cyfarfod bnawn dydd Mawrth, Mehefin 15. Nid oedd siaradwr, ond fe gafwyd paned a sgwrs. Roedd y te wedi ei baratoi gan Miss L. Jones, Craig y Ddinas a Mrs Evans Bod Idris. Miss G. Jones enillodd y raffl. Bydd y trip yn mynd o amgylch Sir Fôn Gorffennaf 1 ac fe fydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Gorffennaf 20.

LLONGYFARCHWN Mr Tony Elliott ar ei benodiad yn brifathro ysgol Llandwrog a dymunwn yn dda iddo fel ardal.

TAITH GERDDED – Yn ddiweddar fe fu Kevin Jones a Bronwen R. Hughes ar daith gerdded tuag at Y Genhadaeth Dramor ac fe gasglwyd £29 ganddynt. Maent yn diolch i'r rhai a oedd wedi'u noddi.

Gobeithiwn fod Mr a Mrs Griffiths, Cerrig Gwynion, yn gwella ar ôl yr anffawd a gawsant gyda'r car yn ddiweddar.

CWNINGEN AR GOLL – Os oes unrhyw un wedi gweld cwningen fanw, French Hop yr un lliw â chwningen wyllt o gwmpas DAMWAIN – Mae Emyr Williams, Glyn Euron wedi torri'i fraich. Brysia wella Emyr.

cysylltwch â Mrs R. Davies, Tyddyn Hendre, Waun, Penisarwaun os gwelwch yn dda. Ffôn Llanberis 870-404.

EGLWYS Y SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Mehefin 7 a chafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr T. Elliott a oedd yn sôn am y sêr. Rhoddwyd y te gan Mrs O.C. Roberts. Cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eryri i'r ieuencid ddydd Sul Mai 23 yn Eglwys Dewi Sant Bangor. Derbyniodd y plant canlynol dystysgrifau:

4-5: Nia Lewis a Clair Louise Jones. Dan 6: Sioned Lewis ac Andrea Paterson. 6-8: Yvonne Orrock a Rebecca Thomas. 8-10: Amanda Orrock a Berwyn Paterson. Da iawn chi blant.

Cynhaliwyd ein Dydd Gweddi a Rhodd eleni ar y Sulgwyn. Cafwyd gwasanaeth o Gymun Bendigaid teuluol yn y bore a phregeth yng ngwasanaeth y Gosber gyda'r Parch Haydn Rowlands, Trefdraeth, Môn. Mehefin 23 bedyddiwyd Lynn Kimberley Jones, yn yr eglwys gan y ficer. Bendith Duw fo arni. Cydymdeimlwn fel ardal â Mr a Mrs I. Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel. Collodd Mr Hughes ei nai yn y rhyfel yn Ne'r Iwerydd, sef Sgt. John Hughes, Llanbedrog.

CYDYMDEIMLWN HEFYD â Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith ym Mangor a nai yn Corby. Fe gollodd Mrs E.J. Williams, 2 Bryn Tirion ei hewyrth yng Nglynog a Mrs H. Lewis, Pen Pwll Coch ei thaid yn Sir Fôn.

LLONGYFARCHWN Mrs M. Adlam, 14 Bryntirion ar fod yn nain. Ganwyd mab bach i Margaret June a Mansieur.

PEN\$BLWYDD – Roedd Nerys Roberts, 10 Bryntirion yn un ar hugain oed y mis diwethaf. Llongyfarchiadau Nerys. Mae Nerys yn diolch yn fawr am y cardiau a rhoddion a dderbyniodd ar yr achlysur.

PRIODAS ARIAN – Fe ddathlodd Mr a Mrs Richard Jones, Heather Bank, 25 o flynyddoedd priodas yn ddiweddar. Llongyfarchwn hwythau hefyd.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Adran Deiniolen a'r Cylch. Cynhelir Barbeciw a Mabolgampau ym Mhenisarwaun, nos Wener, Gorffennaf 16 – y mabolgampau i ddechrau am 6 o'r gloch; y barbeciw i ddechrau am 7.30 o'r gloch. Mynediad 15c (plant); 30c (oedolion).

YN YR YSBYTY – Mae Eric Jones o'r Waunfawr, (mab Mr a Mrs Jones, 13 Bryntirion) yn yr ysbyty. Mae'r pentrefwyr yn dymuno gwellhad buan iddo.

CEUNANT

PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Mai 29 priodwyd Glyn Jones, mab Mr a Mrs Robert Jones, Penhafodlas â Sandra, merch Mr a Mrs Hugh Jones, 36 Coed Marian, Caernarfon. Byddant yn ymgartrefu ym Mhenhafodlas. Dymunwn pob bendith a hapusrwydd iddynt.

CYFARCHION PRIODASOL
I Sandra a Glyn
ar ddydd eu priodas

Rhaid deffro'r awen eto
Ar wanwyn teg fel hyn
Mewn gwledd ar ôl yr uno
Rhwng Sandra fwyn a Glyn.
Mae un o'r dre a'r llall o'r wlad
Yn rhoddi i ni oll fwynhad.

Caiff Sandra wledd wrth wyluo
O Benhafodlas fawr,
Y fangre lle bu'n treulio
Ei bywyd bron bob awr,
Uwch ben y dref a'r Fenai dlos
A'u goleuadau gyda'r nos.

Mae'r haf o'ch blaen chwi Sandra
Y grug a'r blodau'n dlws.
Daw awel iach y mynydd
Yn dyner at eich drws
A'ch hudo chwi a Glyn am dro
Gan wasgu llaw hyd lwybrau'r fro.

Dymunaf bob hapusrwydd
Llawenydd o bob lle,
Ac aelwyd lân a dedwydd
A phopeth yn ei le.
Boed llwyddiant i chwi hyd y daith,
A golau i'r dyfodol maith.

W.J. Jones
Talymignedd Isaf,
Nantlle



ETHOL BLAENORIAID – Yn ystod gwasanaeth yng nghapel Ceunant ddydd Sul, Mai 23 etholwyd Mr Owen Jones, Garth a Mrs Helen Parry, Morwel yn flaenoriaid. Cynrychiolwyd Henaduriaeth Arfon gan y Parch Trefor Jones, Caernarfon a Mr Glyn Owen, Pontrhyallt.

YN YR YSBYTY – Dymunwn adferiad buan i Miss Beryl Milligan, Gwynle sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Eryri Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU gwresog i Mr Richard Ellis Owen, Bryn y Maen ar ei benodiad yn ddiweddar fel pennaeth yr Adran Adfer yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda.

CYNRYCHIOLI GWYNEDD
Llongyfarchiadau i Michael Coombes o Ysgol Brynrefail a fydd yn cynrychioli Gwynedd yn y ras glwydi yn Kelsterton yn y dyfodol agos. Mae enw Michael yn ychwanegol at y ddau ddisgybl arall o Frynrefail a enwir yn 'Sibrydion o'r Ysgolion'.

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU i Mr Robert Allan Jones, Y Bonc, mab Mrs Mair Jones, a'r diweddar Mr Robert Jones, Y Bonc.

Rheolwr Cwmni Cyfrifaduron o'r Yswidir, sydd â'i leoliad yn Croydon yw Robert Allan – cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail a Phrifysgol Lerpwl. Yn ddiweddar dewiswyd ef i gynrychioli ei gwmni yn Houston, Texas, UDA. Cofion a dymuniadau da'r ardal i Robert Allan.

Y mae ymweld â'r UDA o ddiddordeb arbennig i Mr Robert Allan Jones, gan i'w dad a chwaer ei dad, Mrs Jennie Jones, fyw yn yr Amerig am gyfnod. Cofia darllenwyr hynaf Eco'r Wyddfa ymweliadau cyson Mrs Jennie Jones a'i phriod, Mr Tom Jones, â Chymru, ac fel y bu i'r ddau gyfarfod â damwain angeuol tra'n teithio mewn car modur yn yr Amerig.

Y CAPEL – Bnawn Sul Mehefin 20 cafwyd gwasanaeth arbennig i'r plant yng Nghapel Tan-y-coed. Rhoddwyd anerchiad i'r plant gan y Parch W.O. Roberts, Manod, eu

cyn-weinidog. Mr Roberts hefyd a rannodd y gwobrwyon i'r plant a gafodd arholiadau'r cyfundeb. Miss Enid Roberts, Minafon oedd y cyfeilydd.

Cymerwyd ran yn y gwasanaeth gan Richard Roberts, Prysgol; Glenda a Lona Roberts, 1 Tai Minffordd; Ffion Williams, Fferm Minffordd; John Elwyn Jones, Dolwen a David Jones, Min-y-parc.

Daeth cynulliad da o deuluoedd y plant a charedigion yr Ysgol Sul i'r gwasanaeth. Estynnwyd croeso arbennig i Mrs Lizzie Jones, 58 Bro Rhyddallt a'i llongyfarch ar ddathlu ei phen-blwydd yn 83 mlwydd oed Mehefin 18.

Dros y penwythnos Mehefin 18-20 bu Amlyn Evans, Rebecca Hughes, Alwena Roberts a Janet Roberts yn mwynhau egwyl lawn o weithgareddau diddorol yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn. DYMUNIADAU DA – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da fel ardal i Mrs Katie Williams, Morawel, sydd heb fod yn dda ei hiechyd ers amser.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

A 20x20 crossword puzzle grid. The grid is black and white, with black squares forming a pattern that defines the word spaces. Numbers 1 through 21 are placed in the top-left corner of the squares where words begin. The numbers are: 1 (row 1, col 1), 2 (row 1, col 3), 3 (row 1, col 5), 4 (row 1, col 7), 5 (row 1, col 9), 6 (row 1, col 11), 7 (row 2, col 1), 8 (row 2, col 7), 9 (row 3, col 1), 10 (row 3, col 5), 11 (row 3, col 9), 12 (row 4, col 3), 13 (row 4, col 5), 14 (row 4, col 7), 15 (row 4, col 9), 16 (row 4, col 11), 17 (row 5, col 1), 18 (row 5, col 5), 19 (row 6, col 1), 20 (row 6, col 5), 21 (row 7, col 1).

3. Enw Bachgen (7)
7. Tywys (6)
8. Cyhoeddi (6)
9. Nofel wlyb? (1,3,1,3)
11. Diffygio (4)
12. Mwy nag un cenadwri (9)
17. Claearu (4)
18. Dyn a trol yn rhoi dipyn o sioc! (8)
19. Edrych at (6)
20. Gorchest (6)
21. Arbenigwr mewn agwedd o waith saer coed (7)

1. Trefnwch dri amod ar gyfer y llwyfan (7)
2. Celfydd (7)
3. Un annheilwng aiff â dwy gyda hi

(7)

4. Yn methu bod yn ddistaw (5)
5. Troi, plygu (7)
6. Rhyfeddu (5)
10. Cyfnod (5)
13. Derbyn ar ôl un arall (7)
14. Aelod o NUPE, er enghraifft (7)
15. Ystafell yn nho tŷ (7)
16. Rhaid gwneud hyn wrth groesi
cob Porthmadog (4,3)
17. Rhywbeth sy'n tro ym mol
Wynfford!
18. Gwael (5)

Cyfrif y canlynol fel un llythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.
Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfonwch eich cynigion i Trog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS Ffôn
870391**

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Cafodd Evan Wilson Hughes dipyn o sioc y diwrnod o'r blaen pan gerddodd 'Bwgan Brain' i mewn i'w siop yn Llanberis! Ond cafodd ei berswadio i greu gan Huw Jones, cynhyrchydd rhaglenni teledu Cwmni'r Tir Glas, mai dim ond un o Hogia'r Wyddfa oedd yno yn ffilmio ar gyfer rhaglen deledu newydd fydd i ymddangos ar S4C. Bydd yr Hogia yn recordio eu rhaglen yn Theatr Seilo nos Sadwrn Gorffennaf 3.

CHWARAEON

MARATHON ERYRI

Ddydd Sul, Hydref 31 eleni, cynhelir un o'r rasmus rhedeg anoddaf yn hanes y ras farathon; cwrs 26 o filltiroedd o amgylch yr Wyddfa, gan gychwyn a gorffen yn Llanberis. Trefnwyr y marathon yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a dyma'u menter gyntaf i fyd athletau. Bwriad y trefnwyr yw cael pob rhedwr i gasglu noddwyr, a bydd yr arian a gesglir yn cael ei rannu rhwng 'Apel yng Nghymru' yr Ymddiriedolaeth; y Gymdeithas Brydeinig tuag at Ymchwil y Galon, ac elusennau eraill yng Ngogledd Cymru.

Mae rasmus marathon fel arfer yn cael eu rhedeg ar gwrs sydd mor wastad â phosibl, felly mae Marathon Eryri yn torri tir newydd, gan nad oes unrhyw ran o'r ras hon ar y gwastad! Gan gychwyn o Lanberis, bydd y rhedwyr yn wynebu Bwlch Llanberis - digon i dorri calon llawer rhedwr di-brofiad. O Ben-y-Gwryd rhaid disgyn y gelltydd serth i Nant Gwynant ac ymlaen i Feddgelert. Oddi yno, rhaid dringo eto am y Rhyd-ddu a'r Waunfawr cyn wynebu un o'r rhannau anoddaf un yn y ras - y ffordd arw o Groeslon Waunfawr dros y Cefn Du i Lanberis. Felly, o fewn rhyw dair milltir olaf y ras, bydd y rhedwyr yn cyrraedd uchder o 1,200 troedfedd ar y Cefn Du a disgyn i lan Llyn Padarn rhyw 800 troedfedd islaw. Gall taith o'r fath brofi ffitrwydd y rhedwyr gorau.

Mae'r trefnwyr yn gofalu am uchafswm o 5,000 o redwyr, a rhaid i

bob un ohonynt fod dros 18 oed. Gobeithir denu rhedwyr marathon gorau Prydain yn ogystal â rhai o wledydd tramor.


Bydd chwech o dlysau arbennig i'w hennill, sef i'r tri dyn cyntaf i orffen ac i'r tair gwraig gyntaf. Yn ogystal, bydd gwobrau arbennig mewn categorïau eraill hefyd, a chyflwynir medalau a thystysgrifau i bawb fydd yn gorffen y ras.

Mae'r tâl cystadlu yn £4.00 ac y mae'r ffurflenni cystadlu i'w cael gan:

Mr Elfed Lewis, 'Marathon Eryri' yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dinas, Betws-y-coed, Gwynedd, LL24 OHG.

Dylid anfon dwy amlen wedi eu cyfeirio gyda phob cais. Dyddiad cau i ymgeiswyr yw Medi 30ain 1982.

Tybed a welir rhai o redwyr yr ardal yn mentro ar ras mor galed? Amser a ddangys.



Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwyrfaï a Llyfni

Drwy'r mis diwethaf, mae'r tywydd wedi bod yn sych a phoeth, tywydd bendedig i orwedd ar lan y môr, ond ddim yn ddelfrydol iawn i bysgota, gyda'r afonydd i gyd yn isel iawn, a'r unig obaith am dipyn o difyrwch oedd troi at y llynnoedd. Ond sâl iawn yw y rhain ar y funud hefyd. Mae'n debyg iawn fod y pysgod hwythau'n cadw yn y cysgod.

Gan fod y dŵr wedi bod mor isel, mae llawer o waith a oedd wir angen ei wneud wedi ei ddechrau, ond bechod yw gweld fod elfen o fandaliaeth yn dal yn yr ardal. Y diwrnod o'r blaen roedd un o arwyddion y Gymdeithas beth ugain troedfedd i fyny ar Bont Crawiau wedi ei blygu, a criw llechi Llyn Crawiau ei hun wedi ei falu am ryw bymtheg llath, a'r llyn

am hyn wedi gostwng rhyw droedfedd. Beth yw'r ateb? — malu peth sydd wedi bod yn sefyll ers tua chan mlynedd bellach (oes rhywun yn gwybod y dyddiad cywir tybed?) Felly, os gwelwch rhywbeth fel hyn yn cael ei wneud, da chwi, dywedwch wrth unrhyw Aelod.

Ar yr unfed ar ddeg o Fehefin, ar ôl carwodydd trwm, cododd yr afon rhyw ychydig a chlywais hanes dipyn o Sewin yn dangos yng ngwaelod yr afon Seiont, a dalirwyd un tua tri phwys a hanner o Lyn Du gan Malcolm Owen o Gaernarfon.

Mae'n debyg mai hogia Caernarfon sydd yn dal y cwbwl gan nad oes dim sôn am un o hogia ardal yr Eco yn dal. Ond gobeithio y bydd un neu ddau wedi dal erbyn y mis nesaf.

CARNIFAL LLANBERIS

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

GORFFENNAF 9-17, 1982

RHAGLEN

Nos Wener: NOSON WERIN o flaen Gwesty'r Grosvenor, 7.30-11.00. Parti Gwrych, — Dawnsio Gwerin. Pererin a Hogia Llandegai.

Nos Sul: NOSON O GÂN yng Nghapel Coch am 8.00 o'r gloch. Côr y Traeth. Hogia Bryngwran. Plant Ysgol Dolbadarn.

Nos Lun: GYRFA CHWIST yn y Ganolfan am 7.30.
CYSTADLEUAETH PŴL yng ngwesty'r Padarn Lake am 8.00.

Nos Fawrth: MABOLGAMPAU ar Ddôl y Goeden am 5.45.

Nos Fercher: DISCO PLANT IAU yn y Ganolfan am 6.45.

Nos Iau: GEMAU GIAMOCS ar Ddôl y Goeden am 6.45.

Nos Wener: BINGO yn y Ganolfan am 7.30.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

SADWRN 17fed

CARNIFAL — DDÔL GOEDEN

12.30 — YR ORYMDAITH yn
cychwyn o'r SWYDDFA BOST

**BYDD DIWRNOD Y CARNIFAL YN
LLAWN O 'SŴN Y FFAIR'**

★ **DAWSWYR MORUS**

★ **MAJORETTES**

★ **HUFEN IÂ** ★ **CŴN POETH**

★ **BARGEINION LU** ★ **LLUNIAETH**

★ **GEMAU FIL**

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

RAS YR WYDDFA



Yn cychwyn o
Bont y Bala 3.30 o'r gloch